Dadansoddi ar gyfer Polisi

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH

GSR

GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rhif Ymchwil Gymdeithasol: 83/2026

Dyddiad cyhoeddi: 12/11/2026

Prosiect Trailblazer ar gyfer Anweithgarwch Economaidd yng Nghymru - Gwerthusiad: Adroddiad Ffurfiannol a Damcaniaeth Newid Blwyddyn 1

Mae fersiwn Saesneg o'r ddogfen hon ar gael hefyd.

This document is also available in English.

OGL © Hawlfrain y Goron ISBN Digidol 978-1-80853-538-3

Prosiect Trailblazer ar gyfer Anweithgarwch Economaidd yng Nghymru - Gwerthusiad: Adroddiad Ffurfiannol a Damcaniaeth Newid Blwyddyn 1

Awduron: OB3 Research ac Institute for Employment Studies

Mae'r adroddiad hwn ar gael ar dudalennau Ystadegau ac Ymchwil gwefan Llywodraeth Cymru: https://llyw.cymru/ystadegau-ac-ymchwil

Adroddiad Ymchwil Llawn: (2026) OB3 Research ac Institute for Employment Studies Prosiect Trailblazer ar gyfer Anweithgarwch Economaidd yng Nghymru - Gwerthusiad: Adroddiad Ffurfiannol a Damcaniaeth Newid Blwyddyn 1. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad GSR 83/2026.

Barn yr ymchwilwyr yw'r farn a nodir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o reidrwydd yn farn a rennir gan Lywodraeth Cymru

Rhagor o wybodaeth:

Addysg a Sgiliau Ôl-16

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost: cyflogadwyedd.sgiliau.ymchwil@llyw.cymru

Tabl Cynnwys

Rhestr o dablau 5

Rhestr o ffigyrau 6

Geirfa 7

Crynodeb Gweithredol 8

1. Cyflwyniad a chefndir 12

1.1. Blaenoriaethau polisi cenedlaethol y DU sy'n perthnasol i'r Prosiect Trailblazer ar gyfer Anweithgarwch Economaidd 12

1.2. Blaenoriaethau polisi cenedlaethol Cymru sy'n berthnasol i'r Prosiect Trailblazer ar gyfer Anweithgarwch Economaidd 12

1.3. Amcanion strategol cenedlaethol y Prosiect Trailblazer ar gyfer Anweithgarwch Economaidd 13

2. Methodoleg 14

3. Canfyddiadau cynnar o flwyddyn 1 15

3.1. Canfyddiadau'r adolygiad o dystiolaeth 15

3.2. Cyfweliadau cwmpasu: rhesymeg a dyluniad 16

3.3. Cyfweliadau cwmpasu: gweithredu cynnar 17

3.4. Adolygiad o ddata'r rhaglen 19

4. Damcaniaeth Newid – lefel rhaglen 25

4.1. Crynodeb 25

4.2. Camau allwedol i ddatblygu ddamcaniaethau newid a model rhesymeg 25

4.3. Meini prawf cymhwystra i'r Prosiect Trailblazer ar gyfer Anweithgarwch Economaidd yng Nghymru 26

4.4. Mewnbynnau 26

4.5. Mapio gweithgaredd i ganlyniad 26

4.5.1. Llwybr ar gyfer rhannu gwybodaeth ac integreiddio systemau 27

4.5.2. Llwybrau ar gyfer ymgysylltu a chefnogi cyfranogwyr 27

4.5.3. Llwybr i gyflogwyr 29

4.6. Risgiau allweddol i'r Prosiect Trailblazer yng Nghymru 30

4.7. Effaith hirdymor y bwriedir i'r rhaglen ei chael 30

5. Damcaniaeth newid ar gyfer Castell-nedd Port Talbot 32

5.1. Meini prawf cymhwystra 32

5.2. Mewnbynnau 32
5.3. Mapio gweithgaredd i ganlyniad 32
5.3.1. Llwybrau a mecanweithiau ar gyfer ymgysylltu â chyfranogwyr 32
5.3.2. Llwybrau a mecanweithiau cymorth i gyfranogwyr Working Well for You 35
5.3.3. Llwybrau a mecanweithiau cymorth i gyfranogwyr 'Living well for you' 37
5.3.4. Llwybrau a mecanweithiau i gyflogwyr 39
5.4. Rhagdybiaethau allweddol yn ôl llwybr 42
5.5. Risgiau allweddol yn ôl llwybr 42
5.6. Effaith hirdymor y bwriedir i'r rhaglen ei chael 43
6. Damcaniaeth newid ar gyfer Blaenau Gwent 44
6.1. Meini prawf cymhwystra 44
6.2. Mewnbynnau 44
6.3. Mapio gweithgaredd i ganlyniad 44
6.3.1. Llwybrau a mecanweithiau ar gyfer ymgysylltu â chyfranogwyr 45
6.3.2. Llwybrau a mecanweithiau cymorth i gyfranogwyr [troednodyn] 47
6.3.3. Llwybrau i gyflogwyr 49
6.3.4. Llwybrau a mecanweithiau integreiddio systemau a rhannu data 51
6.4. Rhagdybiaethau allweddol 53
6.5. Risgiau allweddol 53
6.6. Effaith hirdymor y bwriedir i'r rhaglen ei chael 54
7. Damcaniaeth newid ar gyfer Sir Ddinbych 56
7.1. Meini prawf cymhwystra 56
7.2. Mewnbynnau 56
7.3. Mapio gweithgaredd i ganlyniad 56
7.3.1. Llwybr a mecanweithiau i gyfranogwyr 57
7.3.2. Llwybrau a mecanweithiau sy'n canolbwyntio ar ofal iechyd 59
7.3.3. Llwybrau a mecanweithiau i gyflogwyr 61
7.3.4. Llwybr a mecanweithiau ar gyfer integreiddio'r system 63
7.4. Prif ragdybiaethau 64
7.5. Prif risgiau 65
7.6. Effaith hirdymor 66

8. Camau nesaf y gwerthusiad 67

Rhestr o dablau

Tabl 3.1 Statws cyflogaeth cyfranogwyr [Nodyn 1] [Nodyn 2] 21

Tabl 3.2 Rhwystrau i waith a adroddwyd gan gyfranogwyr pan wnaethant ymuno a'r Prosiect Trailblazer ar gyfer Anweithgarwch Economaidd [Nodyn 1] [Nodyn 2] 22

Tabl 3.3 Pu'n ai os nododd cyfranogwyr fod ganddynt gyflwr iechyd hirdymor neu nam [Nodyn 1] 23

Tabl 3.4 Cyflyrau iechyd a gofnodwyd amlaf ymlith cyfranogwyr [Nodyn 1] [Nodyn 2] 23

Rhestr o ffigyrau

Ffigur 3.1 Nifer y cyfranogwyr y Prosiect Trailblazer yn ôl ardal beilot, lansio i Ionawr 2026 19
Ffigur 3.2 Oedran y cyfranogwyr ar y Prosiect Trailblazer, lansio i Ionawr 2026 20
Ffigur 4.1 Llwybr ar gyfer rhannu gwybodaeth ac integreiddio systemau yn y Prosiect Trailblazer yng Nghymru 27
Ffigur 4.2 Llwybrau ar gyfer ymgysylltu a chefnogi cyfranogwyr y Prosiect Trailblazer yng Nghymru 27
Ffigur 4.3 Llwybr i gyflogwyr y Prosiect Trailblazer yng Nghymru 29
Ffigur 5.1 Llwybrau a mecanweithiau ar gyfer ymgysylltu â chyfranogwyr Castell-nedd Port Talbot 32
Ffigwr 5.2 Llwybrau a mecanweithiau cymorth ‘Working Well for You’ i gyfranogwyr Castell-nedd Port Talbot 35
Ffigur 5.3 Llwybrau a mecanweithiau cymorth i gyfranogwyr ‘Living Well for You’ Castell-Nedd Port Talbot 37
Ffigur 5.4 Llwybrau a mecanweithiau i gyflogwyr Castell-Nedd Port Talbot 39
Ffigur 6.1 Llwybrau a mecanweithiau ar gyfer ymgysylltu â chyfranogwyr Blaenau Gwent 45
Ffigur 6.2 Llwybrau a mecanweithiau cymorth i gyfranogwyr Blaenau Gwent 47
Ffigur 6.3 Llwybrau i gyflogwyr Blaenau Gwent 49
Ffigur 6.4 Llwybrau a mecanweithiau integreiddio systemau a rhannu data Blaenau Gwent 51
Ffigur 7.1 Llwybrau a mecanweithiau i gyfranogwyr Sir Ddinbych 57
Ffigur 7.2 Llwybrau a mecanweithiau sy'n canolbwyntio ar ofal iechyd Sir Ddinbych 59
Ffigur 7.3 Llwybrau a mecanweithiau i gyflogwyr Sir Ddinbych 61
Ffigur 7.4 Llwybr a mecanweithiau ar gyfer integreiddio'r system Sir Ddinbych 63

Geirfa

BBaCHau

Busnesau bach a chanolig

GAD-7

Generalised Anxiety Disorder 7-item scale

NEET

Pobl ifanc heb fod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (NEET)

RSES

Graddfa Hunan-Barch Rosenberg

Damcaniaeth Newid

Mae damcaniaeth newid yn darparu esboniad strwythuredig o sut a pham mae disgwyl i ymyrraeth gyflawni ei ganlyniadau arfaethedig. Mae'n nodi'r llwybrau achosol sy'n cysylltu mewnbwnnau, gweithgareddau, allbynnau a chanlyniadau, tra'n gwneud yn eglur y rhagdybiaethau a'r ffactorau cyd-destunol sy'n sail i newid.

Crynodeb Gweithredol

Cyflwyniad a Chefndir

Mae'r adroddiad ffurfiannol hwn ar gyfer Llywodraeth Cymru yn cyflwyno canfyddiadau o gyfnod cwmpasu'r gwerthusiad o'r Prosiect Trailblazer ar gyfer Anweithgarwch Economaidd yng Nghymru.

Roedd y gwaith cwmpasu yn cynnwys adolygiad o ddogfennau polisi a thystiolaeth ehangach, cyfweliadau cwmpasu â rhanddeiliaid, adolygiad o ddata'r rhaglen a 4 gweithdy Damcaniaeth Newid.

Methodoleg

Rhwng Chwefror a Mai 2026, defnyddiodd y gwerthusiad sawl gweithgaredd cwmpasu i lywio'r adroddiad ffurfiannol a damcaniaeth newid. Roedd y rhain yn cynnwys:

- adolygiad o ddogfennau polisi a rhaglenni, gan gynnwys cynlluniau cyflawni peilot, adroddiadau cynnydd a thempledi monitro
- adolygiad tystiolaeth o 19 dogfen ar yr hyn sy'n gweithio wrth ymgysylltu a chefnogi pobl economaidd anweithgar i gyflogaeth
- 12 cyfweliad cwmpasu gyda swyddogion Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a'r Adran Gwaith a Phensiynau
- adolygiad o ddata rheoli gwybodaeth y rhaglen hyd at fis Ionawr 2026
- pedwar gweithdy damcaniaeth newid, oedd yn cwmpasu pob maes peilot a'r rhaglen ar lefel Cymru

Canfyddiadau allweddol o gam gweithredu cynnar y cynllun

Mae data cynnar ar wybodaeth reoli yn dangos bod y cynlluniau peilot wedi cyrraedd amrywiaeth eang o gyfranogwyr, sydd â rhwystrau sylweddol i gyflogaeth. Mae cyfanswm o 695 o gyfranogwyr wedi cymryd rhan yn y Prosiect Trailblazer o'r adeg y cafodd ei lansio hyd at fis Ionawr 2026, ac mae dros hanner y rhain ym Mlaenau Gwent (354) a thua'u chwarter yn Sir Ddinbych ac yng Nghastell-nedd Port Talbot (168 a 173 yn y drefn honno). Mae'r rhan fwyaf o'r cyfranogwyr rhwng 25 a 49 oed (43.5%); mae dros 1 o bob 4 yn bobl ifanc 24 oed ac iau (29.9%); ac mae 1 o bob 5 dros 50 oed (20.4%)

Ar draws yr ardaloedd, roedd cyfartaledd o 74% o gyfranogwyr nad oeddent yn gyflogedig nac yn chwilio am waith pan wnaethant ymuno â'r Prosiect Trailblazer. Nid oedd y gweddill mewn cyflogaeth ac roeddent yn chwilio am waith (cyfartaledd o 16% ar draws yr ardaloedd) ac roedd cyfran fach iawn (cyfartaledd o 1.8% ar draws yr ardaloedd) mewn addysg neu hyfforddiant. Dewisodd 8% yr opsiwn 'mae'n well gennyf beidio â dweud' neu gadawyd eu cofnod yn wag.

Fe ganfu bod Cymunedau am Waith a Mwy yn rhaglen allweddol a oedd yn darparu cymorth i gyfranogwyr cyn iddynt ymgysylltu â'r Prosiect Trailblazer.

Y prif rwystrau i weithio adeg cofrestru oedd diffyg swyddi addas, trafnidiaeth, hyder a sgiliau. Roedd gan bron i ddwy ran o dair o'r cyfranogwyr (61.3%) gyflwr iechyd hirdymor neu nam sy'n effeithio ychydig (35.8%) neu'n effeithio llawer (25.5%) ar weithgaredd beunyddiol. Roedd gan gyfran fach iawn gyflwr iechyd neu amhariad, ond nid yw hynny'n effeithio ar weithgaredd beunyddiol (1.2%). Nid oedd gan bron i 1 o bob 10 (9.2%) gyflwr iechyd nac amhariad. Roedd data ar goll ar gyfer 27.3% o'r cyfranogwyr. Iechyd meddwl oedd y cyflwr iechyd a gofnodwyd amlaf (fe'i cofnodwyd ar gyfer 39.1% o'r cyfranogwyr). Mae hyn yn awgrymu bod ffocws y rhaglen ar lesiant, hyder, ymgysylltu sy'n seiliedig ar ymddiriedaeth, a llwybrau aflinol yn briodol.

Canfyddiadau ar sut i ymgysylltu â phobl sy'n economaidd anweithgar

Mae canfyddiadau sy'n dod i'r amlwg o gyfweliadau cwmpasu yn dangos dau faes allweddol sy'n gweithio'n dda: ymgysylltu a darparu cefnogaeth.

Ar gyfer ymgysylltu, mae hyn yn cynnwys mynd â gwasanaethau i bobl e.e. allgymorth, ymgysylltu hyperleol [Troednodyn1] ar lefel gymunedol, sy'n wahanol i raglenni presennol, a defnyddio gweithgareddau nad ydynt yn gyflogadwyedd fel 'bachau' i ymgysylltu e.e. crefftau, gwneud torchau, grwpiau cerdded.

O ystyried darparu cymorth, mae cydleoli gwasanaethau yn gweithio'n dda i hyrwyddo ymgysylltiad e.e. mae staff y Prosiect Trailblazer ar gyfer Anweithgarwch Economaidd mewn un ardal yn treulio amser yn swyddfeydd y Ganolfan Byd Gwaith i sefydlu a chynnal perthnasoedd ac i dderbyn trosglwyddiadau cynnes o gyfranogwyr sydd wedi'u harwyddo i weithgaredd Trailblazer.

Damcaniaeth Newid ar gyfer y Prosiect Trailblazer ar gyfer Anweithgarwch Economaidd

Rhesymeg a chyd-destun

Ceir cydnabyddiaeth gynyddol bod anweithgarwch economaidd yn aml yn cael ei ysgogi gan iechyd, anabledd a chyfrifoldebau gofalu. Mae'r cymorth cyflogaeth presennol yn dameidiog a gall fod yn anodd i unigolion ei ddeall. Gall y meini prawf cymhwystra fod yn gul, gan ganolbwyntio'n aml ar y rhai sy'n derbyn budd-daliadau. Ar hyn o bryd nid oes gan lawer o gyflogwyr yr wybodaeth, y sgiliau a'r hyder i gynnig cyfleoedd addas i bobl anabl a'r rhai â chyflyrau iechyd hirdymor

Felly, y rhesymeg dros gyflwyno'r Prosiect Trailblazer ar gyfer Anweithgarwch Economaidd yw darparu ffordd o dreialu dulliau newydd o fynd i'r afael â'r problemau hyn

[1] Mae hyperleol yn disgrifio rhywbeth sydd wedi'i gyfyngu i ardal ddaearyddol fach iawn, wedi'i diffinio'n dda.

a rhannu'r hyn a ddysgwyd o hynny. Bwriad y Prosiect Trailblazer yw cynnig hyblygrwydd i ardaloedd lleol ddylunio dulliau wedi'u teilwra sy'n diwallu anghenion eu cymunedau er mwyn sicrhau bod gweithgareddau'n ategu ei gilydd ac nad ydynt yn dyblygu'r cymorth presennol sydd ar gael.

Gweithgareddau allweddol

Mae ystod eang o weithgareddau'n cael eu treialu, gan gynnwys:

- ffyrdd arloesol o gyrraedd grwpiau nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol ac ymgysylltu â nhw drwy waith allgymorth cymunedol a dulliau newydd o frysbennu a phwyntiau mynediad sengl
- ffocws ar gydweithio rhwng gweithwyr iechyd a chyflogadwyedd proffesiynol, yn ogystal â ffocws ar gydweithio cryfach rhwng Therapyddion Galwedigaethol a Meddygon Teulu mewn rhai ardaloedd
- cymorth 1:1 gan weithiwr allweddol
- cymorth cyfannol (drwy weithio mewn partneriaeth) i fynd i'r afael ag ystod eang o anghenion, gan gynnwys llesiant

Mecanweithiau

Dyma rai o'r mecanweithiau allweddol sydd wedi'u hanelu at gyflawni canlyniadau:

- darparu cymorth mewn lleoliadau cyfarwydd (lleol iawn) sy'n helpu i feithrin ymddiriedaeth ac ymgysylltiad
- sicrhau bod digwyddiadau cymunedol sy'n seiliedig ar ddiddordebau yn brofiadau pleserus heb lawer o bwysau, sy'n helpu i feithrin ymddiriedaeth, goresgyn ofn a chyrraedd pobl nad ydynt efallai'n ystyried cyflogaeth
- creu perthnasoedd â gweithwyr allweddol dibynadwy i feithrin hyder ac ymddiriedaeth i ymgysylltu
- mynd i'r afael ag ystod o anghenion ehangach, nad ydynt yn gysylltiedig â chyflogaeth, er mwyn goresgyn rhwystrau ymarferol, ariannol a seicolegol i gymorth cyflogaeth, gan annog pobl i fanteisio ar gymorth cyflogaeth

Canlyniadau

Adnabyddwyd gwell iechyd meddwl a llesiant a llai o ynysu cymdeithasol fel canlyniadau canolraddol allweddol i'r cyfranogwyr.

I gyflogwyr, y canlyniadau allweddol â adnabyddwyd oedd gwell gwybodaeth am arferion cynhwysol ac i bartneriaid y system, gwell cyfathrebu a rhannu data er mwyn gwella'r broses o wneud penderfyniadau strategol.

Mae'n debygol y bydd y canlyniadau canolraddol hyn, a'r cynnydd mewn atgyfeiriadau at gymorth cyflogaeth, yn cael eu gweld yn ystod cyfnod cyflawni'r Prosiect

Trailblazer ond bydd yn cymryd mwy o amser i ganlyniadau o ran mynediad at swyddi gael eu gwireddu.

Allbynnau / prosesau arfaethedig a allai arwain at effeithiau hirdymor

Nodwyd yr allbynnau / prosesau canlynol a allai arwain at effeithiau hirdymor:

- datblygu dulliau amlasiantaeth newydd a chynaliadwy o fynd i'r afael ag an-weithgarwch economaidd
- creu profiad mwy effeithlon i gyfranogwyr, ble mae nifer o wasanaethau ar gael drwy un pwynt mynediad
- cefnogi cyflogwyr i ddatblygu arferion recriwtio ac arferion gweithle mwy cyn-hwysol

Camau nesaf

Bydd cam nesaf y gwerthusiad yn canolbwyntio ar ymchwil sylfaenol ym mlwyddyn 2.

1. Cyflwyniad a chefndir

Mae'r adroddiad ffurfiannol hwn ar gyfer Llywodraeth Cymru yn cyflwyno canfyddiadau o gyfnod cwmpasu'r gwerthusiad o'r Prosiect Trailblazer ar gyfer Anweithgarwch Economaidd yng Nghymru.

Roedd y gwaith cwmpasu yn cynnwys adolygiad o ddogfennau polisi a thystiolaeth ehangach, cyfweliadau cwmpasu â rhanddeiliaid, adolygiad o ddata'r rhaglen a 4 gweithdy Damcaniaeth Newid.

Cyflwynir y modelau damcaniaeth newid ar lefel rhaglen a lleol ym Mhenodau 4 i 7.

1.1. Blaenoriaethau polisi cenedlaethol y DU sy'n perthnasol i'r Prosiect Trailblazer ar gyfer Anweithgarwch Economaidd

Cyhoeddwyd y Papur Gwyn yn dwyn y teitl 'Get Britain Working' gan Lywodraeth y DU ym mis Tachwedd 2024 ac mae'n amlinellu uchelgais i fynd i'r afael ag anweithgarwch economaidd parhaus a phobl ifanc sy'n ymddieithrio o'r farchnad lafur.

Mae'n amlinellu nod hirdymor o gyrraedd cyfradd gyflogaeth o 80% ledled y DU a mynd i'r afael â'r cynnydd mewn anweithgarwch a achosir yn bennaf gan salwch hirdymor. Cyflwynodd y Papur Gwyn y Prosiectau Trailblazer ar gyfer Anweithgarwch Economaidd er mwyn profi cynlluniau peilot newydd wedi'u targedu, sy'n seiliedig ar le, i integreiddio cymorth yn ymwneud â chyflogaeth, sgiliau ac iechyd. Dyrannwyd hyd at £20 miliwn o gyllid i Lywodraeth Cymru i gyflawni un o'r prosiectau peilot Trailblazer ar gyfer Anweithgarwch Economaidd yng Nghymru.

1.2. Blaenoriaethau polisi cenedlaethol Cymru sy'n berthnasol i'r Prosiect Trailblazer ar gyfer Anweithgarwch Economaidd

Y prif sbardun polisi sy'n sail i ddyluniad y Prosiect Trailblazer ar gyfer Anweithgarwch Economaidd yng Nghymru yw'r Cynllun Cymru Gryfach, Decach a Gwyrddach gan y Lywodraeth Cymru blaenorol sy'n canolbwyntio ar y rhai sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yn y farchnad lafur a'r rhai sy'n ddi-waith a chanddynt gyflyrau iechyd hirdymor. Mae'r cynllun yn cynnwys carreg filltir i sicrhau bod o leiaf 90% o bobl ifanc 16 i 24 oed mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant erbyn 2050.

Disgwylir i'r cynllun peilot brofi dulliau a all fod yn sail i Raglen Cymorth Cyflogadwyedd newydd Cymru.

Mae'r Prosiect Trailblazer ar gyfer Anweithgarwch Economaidd hefyd yn cefnogi'r gwaith o gyflawni polisïau eraill Llywodraeth Cymru drwy brofi ac ymgorffori dulliau integredig sy'n mynd i'r afael â rhwystrau i gyflogaeth sy'n gysylltiedig ag iechyd:

- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 drwy ganolbwyntio ar newid systemau cynaliadwy ar draws y meysydd iechyd, cyflogaeth a darpariaeth gymunedol
- Cymru Iachach drwy alluogi cymorth cydgysylltiedig, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, sy'n dwyn ynghyd iechyd, cyflogadwyedd a gwasanaethau'r trydydd sector
- Strategaeth iechyd meddwl a llesiant drwy fabwysiadu dull cyfannol o gefnogi pobl y mae eu hiechyd meddwl yn effeithio ar eu gallu i weithio
- Fframwaith cenedlaethol ar gyfer presgripsiynu cymdeithasol drwy gysylltu pobl sy'n economaidd anweithgar â chymorth llesiant yn y gymuned
- Egwyddorion Marmot sy'n cael eu mabwysiadu gan 5 ALl peilot i leihau anghydraddoldebau iechyd drwy ganolbwyntio ar y rhai sy'n wynebu'r rhwystrau mwyaf i gael gwaith

1.3. Amcanion strategol cenedlaethol y Prosiect Trailblazer ar gyfer Anweithgarwch Economaidd

Nod y Prosiect Trailblazer ar gyfer Anweithgarwch Economaidd yw datblygu partneriaethau a threfniadau atgyfeirio cryf gyda sefydliadau cymunedol a phartneriaid lleol fel Byrddau Iechyd Lleol, Meddygon Teulu, y Ganolfan Byd Gwaith, gofal cymdeithasol, gwasanaethau iechyd cymunedol a sefydliadau'r trydydd sector, ymhlith eraill.

Y nod canolog yw lleihau dyblygu cymorth ac ychwanegu gwerth at ddarpariaeth sydd eisoes yn bodoli drwy ddatblygu un pwynt mynediad at gymorth ymhellach.

Bydd yn profi dulliau lleol ac yn defnyddio dull amlasiantaeth gyda'r nod o leihau anweithgarwch economaidd, gan ganolbwyntio ar bobl sy'n ddi-waith ac nad ydynt yn chwilio am waith nad ydynt ar hyn o bryd yn manteisio ar gymorth cyflogaeth neu sgiliau neu nad ydynt mewn addysg neu hyfforddiant.

2. Methodoleg

Roedd y fethodoleg a fabwysiadwyd rhwng Chwefror a Mai 2026 i lywio'r adroddiad ffurfiannol a damcaniaethau newid yn cynnwys:

- mynychu cyfarfod cychwynnol gyda swyddogion Llywodraeth Cymru a pharatoi adroddiad cychwynnol i gadarnhau'r raglen waith
- adolygu dogfennau polisi a dogfennau'r rhaglen. Roedd y dogfennau rhaglen a adolygwyd yn cynnwys cynlluniau cyflawni ar gyfer pob ardal beilot y Prosiect Trailblazer, adroddiadau cynnydd a thempledi monitro rhaglenni
- cynnal adolygiad tystiolaeth er mwyn adnabod beth sy'n gweithio o ran ymgysylltu a chefnogi pobl economaidd anweithgar i gyflogaeth. Adolygwyd 19 dogfen i gyd
- cynnal cyfweliadau cwmpasu gyda chyfanswm o 12 o swyddogion. O'r rhain, roedd 5 yn swyddogion Llywodraeth Cymru, 4 yn swyddogion awdurdodau lleol a 3 yn swyddogion yr Adran Gwaith a Phensiynau
- cynnal adolygiad o ddata gwybodaeth rheoli'r rhaglen oedd ar gael hyd at fis Ionawr 2026 er mwyn dadansoddi gwybodaeth am y cyfranogwyr a oedd wedi ymgysylltu â'r rhaglen
- hwyluso 3 gweithdy Damcaniaeth Newid, gan gynnwys un ar gyfer pob ardal beilot y Prosiect Trailblazer ac un ar lefel rhaglen Cymru. Mynychwyd y gweithdai hyn gan ystod o randdeiliaid. Roedd y gweithdai ardal beilot yn cynnwys staff rheoli a chyflenwi awdurdodau lleol, yn ogystal â chynrychiolwyr o sefydliadau partner, tra bod arweinwyr polisi o Lywodraeth Cymru a'r Adran Gwaith a Phensiynau yn bresennol yn y gweithdy ar lefel Cymru
- cwmpasu dichonoldeb dulliau mesur effaith posibl a gwerthusiad economaidd. Ar gyfer y gwerthusiad effaith, roedd hyn yn cynnwys adolygu data rheoli gwybodaeth, arolwg a gweinyddol oedd ar gael yn erbyn y canlyniadau a nodwyd yn y Damcaniaethau Newid, ac asesu addasrwydd dulliau dylunio lled-arbrofol. Ar gyfer y gwerthusiad economaidd, roedd hyn yn cynnwys ystyried argaeledd data costau, nodi gwerthoedd ariannol priodol ar gyfer canlyniadau, ac archwilio dulliau ar gyfer dadansoddi costau fesul cyfranogwr

3. Canfyddiadau cynnar o flwyddyn 1

3.1. Canfyddiadau'r adolygiad o dystiolaeth

Mae adolygiad o'r dystiolaeth yn awgrymu bod nifer o ffactorau yn gweithio i ymgysylltu a chefnogi pobl economaidd anweithgar. Mae'r rhain yn cynnwys:

- gweithgareddau ymgysylltu megis allgymorth wedi'i bersonoli, staff dibynadwy a llwybrau atgyfeirio symlach
- modelau cymorth sy'n cynnwys cymorth holistaidd, integredig, aml-gydran (sgiliau, iechyd, hyder, rhwystrau ymarferol) a modelau cyflogwr
- teilwra ar gyfer grwpiau difreintiedig. Ar gyfer pobl sy'n ddi-waith hirdymor, mae'r dystiolaeth yn cefnogi cymorth strwythuredig, dilyniannol, gyda ffocws ar adeiladu hyder a chymhelliant yng nghamau cynnar y llwybr. Ar gyfer pobl â chyflyrau iechyd, mae'r dystiolaeth yn cefnogi cyflogaeth integredig ac ymyriadau iechyd sy'n adlewyrchu bod canlyniadau iechyd a chyflogaeth yn rhyng-ddibynnol

Ar gryfder y dystiolaeth; at ei gilydd, mae'r dystiolaeth yn gymysg: mae'r rhan fwyaf o astudiaethau'n defnyddio dulliau disgrifiadol neu ansoddol (ac nid ydynt yn defnyddio dulliau achosol neu wrthffeithiol). Mae'r canfyddiadau'n ddefnyddiol ar gyfer deall patrymau a phrofiadau. Fodd bynnag, gan fod cadernid amcangyfrifon o effaith yn gyfyngedig, dylid dehongli'r canfyddiadau'n ofalus.

Nodwyd ystod o ffactorau sy'n dylanwadu ar lwyddiant y tu hwnt i gynnwys y rhaglen. Nodwyd ffactorau ecosystemau lleol, gan gynnwys gweithio mewn partneriaeth, cydlynu gwasanaethau, cydleoli a sicrhau cyfatebiaeth â chyfleoedd yn y farchnad lafur leol.

Nodwyd ystod o rwystrau i gyfranogiad, gan gynnwys trafnidiaeth, gofal plant, cyfrifoldebau gofalu, mynediad i wasanaethau digidol, heriau iechyd, profiad gyda'r system cyfiawnder troseddol, niwroamrywiaeth, adfer o gaethiwed neu ddigartrefedd, a profiad o drawma neu gamdriniaeth.

Mae tystiolaeth o'r adolygiad hefyd wedi nodi sawl ffactor ymarferol a all effeithio ar gyflawni rhaglenni ac ymgysylltu â chyfranogwyr. Mae'r rhain yn cynnwys:

- meini prawf cymhwystra a llwybrau atgyfeirio clir
- rhaglen sy'n ddigonol o ran hyd a dwyster
- recriwtio a chadw
- integreiddio data (gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau, er enghraifft)
- ymwybyddiaeth a dealltwriaeth cyflogwyr o raglenni
- cymhellion cyflogwyr

3.2. Cyfweliadau cwmpasu: rhesymeg a dyluniad

Archwiliodd y cyfweliadau cwmpasu y rhesymeg dros y Prosiect Trailblazer ar gyfer Anweithgarwch Economaidd, gan gynnwys yr angen am gymorth mwy integredig, wedi'i deilwra'n lleol i bobl sy'n wynebu rhwystrau cymhleth i weithio.

Mae cydnabyddiaeth gynyddol bod anweithgarwch economaidd yn cael ei yrru gan gyfrifoldebau iechyd, anabledd a gofalu. Tynnodd cyfweliadau cwmpasu sylw hefyd at y gofyniad i ymgysylltu ag unigolion anodd eu cyrraedd, gan gynnwys y rhai nad ydynt yn derbyn budd-daliadau. Gellir crynhoi'r nod o greu taith ddi-dor i bobl fel "un sgwrs, nid deg".

Cydnabuwyd bod awdurdodau lleol mewn sefyllfa dda i ddiffinio a theilwra'r ddarpariaeth i weddu i anghenion eu cymunedau, tra bod disgwyl i ddull hyper-leol sy'n defnyddio sefydliadau cymunedol gynyddu ymgysylltiad

Cydnabuwyd hefyd bod angen mynd i'r afael â system wedi'i darnio a darpariaeth sy'n cael ei dyblygu ynghyd â'r angen i wella ymgysylltiad cyflogwyr a hyder cyflogwyr i gyflogi pobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd. Yn y tymor hir, bydd hyn yn gofyn am gryfhau arferion recriwtio a chadw cyflogwyr.

Nododd cyfweliadau cwmpasu sawl gwahaniaeth yn y ffordd y cafodd cynlluniau peilot y Prosiect Trailblazer eu strwythuro a'u cyflwyno ar draws y 3 ardal beilot yng Nghymru. Mae'r gwahaniaethau yn cynnwys:

- amrywioldeb ym maint a chyfansoddiad rhwydweithiau partner
- amrywiaeth yng nghanran yr arian a gedwir ar gyfer staff awdurdodau lleol (uchel yng Nghastell-nedd Port Talbot a Sir Ddinbych, ac isel ym Mlaenau Gwent)
- strwythurau gwahanol i'r rhaglenni e.e. mae Blaenau Gwent yn cynnwys 10 i 12 elfen fach tra bod Castell-nedd Port Talbot yn cynnwys 3 elfen sydd wedi'u diffinio'n dda
- cyllid yn cael ei ddefnyddio i sefydlu darpariaeth newydd yn bennaf mewn dwy ardal (Blaenau Gwent a Chastell-nedd Port Talbot) ac ymestyn a gwella'r ddarpariaeth yn Sir Ddinbych
- cronfeydd yn cael eu defnyddio i wneud gwaith allgymorth ac ymgysylltu yng Nghastell-nedd Port Talbot a Blaenau Gwent ond i ehangu'r dull presennol yn Sir Ddinbych
- bod Castell-nedd Port Talbot a Sir Ddinbych yn ariannu byrddau iechyd i gyflogi Therapyddion Galwedigaethol tra bod Blaenau Gwent yn manteisio ar gymorth llesiant y bwrdd iechyd
- bod ffocws cychwynnol y cydweithio â'r bwrdd iechyd yng Nghastell-nedd Port Talbot ar un ardal glwstwr; mae eraill yn cwmpasu'r sir gyfan

- disgwyliadau gwahanol ynghylch ffynonellau atgyfeirio cyfranogwyr gyda phwyslais amrywiol ar atgyfeiriadau i'r Ganolfan Byd Gwaith, gwasanaethau iechyd a grwpiau cymunedol

Nododd cyfweliadau cwmpasu ystod o nodweddion arloesol ar draws peilotiaid Trailblazer, gan gynnwys allgymorth wedi'i dargedu, partneriaethau cyflenwi newydd a dulliau gwell o ddata a gweinyddu. Tynnodd y cyfwelai sylw at:

- ymyrraeth ar ffurf gêm ar-lein i gyrraedd pobl ifanc sy'n gaeth i'w cartrefi (Blaenau Gwent)
- yargedu cymunedau penodol e.e. cymunedau Roma, Sipsiwn a Theithwyr (Blaenau Gwent)
- rhoi cyllid i fyrddau iechyd er mwyn 'neilltuo' adnoddau ar gyfer mentrau cyflogadwyedd
- rhoi cyllid i sefydliadau cymunedol/trydydd sector ar draws pob un o'r 3 ardal beilot i ymgysylltu â chyfranogwyr
- cyflwyno System Gwybodaeth Reoli newydd ar draws y 3 chynllun peilot er mwyn gwella'r broses o gasglu a rhannu data, ac adrodd arno
- mabwysiadu offer deallusrwydd artiffisial i gyflawni tasgau gweinyddol (Sir Ddinbych)

3.3. Cyfweliadau cwmpasu: gweithredu cynnar

Mae'r adran hon yn crynhoi canfyddiadau cynnar o gyfweliadau cwmpasu ar sut y dyluniwyd a chyflwynwyd y Prosiect Trailblazer ar gyfer Anweithgarwch Economaidd ar lefel beilot.

Amlinellodd cyfwelai y canlynol:

- dewiswyd ardaloedd peilot yn seiliedig ar dystiolaeth o angen; ac amrywiaeth o gyd-destunau (trefol/gwledig a Chymraeg)
- roedd y seilwaith aeddfed presennol yn caniatáu i bethau symud yn gyflym: trefniadau cyflawni Cymunedau am Waith a Mwy, prosesau blaenoriaethu effeithiol, trefniadau llywodraethu priodol, a staff presennol sydd â gwybodaeth leol
- yn ystod y misoedd cyntaf, canolbwyntiwyd ar sefydlu strwythurau, partneriaeth a threfniadau llywodraethu
- yn ystod y 6 mis cyntaf, canolbwyntiwyd ar recriwtio staff a phartneriaid cyflawni

Nododd cyfweliadau cwmpasu sawl nodwedd o gyflwyno a oedd yn gweithio'n dda yn ystod camau cynnar y Prosiect Trailblazer. Roedd y rhain yn cynnwys:

- dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, gan fod rhwystrau'n gymhleth ac yn amrywiol
- tîm cyflawni gyda'r gallu, empathi a set sgiliau priodol
- cydleoli gwasanaethau e.e. staff y Prosiect Trailblazer yn gweithio yn swyddfeydd y Ganolfan Byd Gwaith
- mynd â gwasanaethau at y bobl e.e. allgymorth, ymgysylltu ar lefel gymunedol leol iawn
- trefnu gweithgareddau nad ydynt yn gysylltiedig â chyflogadwyedd fel 'bachau' i ymgysylltu e.e. sesiynau crefftau, gwneud torchau, grwpiau cerdded
- hyblygrwydd i fynd i'r afael ag anghenion, bylchau ac amgylchiadau lleol

Nododd cyfweliadau cwmpasu nifer o heriau cyflawni cynnar sy'n effeithio ar weithredu ar draws ardaloedd peilot y Prosiect Trailblazer. Roedd y rhain yn cynnwys:

- rhwystrau o ran rhannu data rhwng Llywodraeth Cymru, Awdurdodau Lleol a'r Adran Gwaith a Phensiynau
- nid yw cyfeirio pobl gan y Ganolfan Byd Gwaith yn arwain at gyfraddau ymgysylltu uchel
- fe wnaeth oedi cyn cadarnhau'r cyllid arwain at danwariant ac anawsterau cynllunio
- mae cylchoedd ariannu tymor byr yn rhwystro recriwtio, cadw a chysondeb o ran y cymorth
- cafwyd anawsterau wrth ymgysylltu â byrddau iechyd a sefydlu trefniadau cydweithio newydd
- mae monitro canlyniadau meddal/y pellter a deithiwyd yn parhau i fod yn anodd oherwydd diffyg offer safonol


Roedd cyfweliadau cwmpasu hefyd yn tynnu sylw at ganlyniadau annisgwyl a gwersi cynnar a all lywio cyflawni ym mlwyddyn 2. Roedd y rhain yn cynnwys:

- cydweithio cryf a rhannu'r hyn a ddysgwyd rhwng y 3 phrosiect peilot Trailblazer e.e. dulliau o ymgysylltu â byrddau iechyd, cynhadledd genedlaethol
- mae materion ariannol yn rhwystr enfawr – dylid symud adnoddau ym Mlwyddyn 2 i gyflogi cynghorwyr y Swyddfa Cyngor ar Bopeth
- mae'n werth cysylltu â byrddau iechyd ar wahanol lefelau (strategol, gweithredol a lleol) i sicrhau ymgysylltiad
- mae cefnogi pobl economaidd anweithgar sydd â rhwystrau cymhleth yn gofyn am amser ac adnoddau

3.4. Adolygiad o ddata’r rhaglen

Mae'r adran hon yn adolygu data monitro’r rhaglen i ddisgrifio nodweddion cyfranogwyr, rhwystrau i waith a phatrymau ymgysylltu cynnar ar draws y tri peilot ardal Trailblazer.

Ffigur 3.1 Nifer y cyfranogwyr y Prosiect Trailblazer yn ôl ardal beilot, lansio i Ionawr 2026 [Nodyn 1] [Nodyn 2]




Disgrifiad o Ffigur 3.1: siart bar sy’n dangos 695 o gyfranogwyr hyd at fis Ionawr 2026. Cofnododd Blaenau Gwent 354 o gyfranogwyr, o'i gymharu â 173 yng Nghastell-nedd Port Talbot a 168 yn Sir Ddinbych.

Ffynhonnell: Data Rheoli Gwybodaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Prosiect Trail-blazer

[Nodyn 1] Y dyddiad gorffen diweddaraf oedd 05 Ionawr 2026.
Roedd nifer y bobl sydd wedi gadael y rhaglen fel a ganlyn: Blaenau Gwent = 1; Sir Ddinbych = 41; Castell-nedd Port Talbot = 0. Y prif reswm dros adael oedd bod y rhan fwyaf ohonynt wedi colli cyswllt / datgysylltu

[Nodyn 2] Roedd y dyddiad lansio yn amrywio rhwng y tair ardal o fis Gorffennaf 2025 i Awst 2025

Ffigur 3.2 Oedran y cyfranogwyr ar y Prosiect Trailblazer, lansio i Ionawr 2026 [Nodyn 1] [Nodyn 2] [Nodyn 3]



Disgrifiad o Ffigur 3.2: siart bar sy'n dangos proffil oedran cyfranogwyr y Prosiect Trailblazer ar gyfer Anweithgarwch Economaidd. Cyfranogwyr dan 16 oed oedd y grŵp oedran lleiaf, tra bod y rhai rhwng 20 a 24 oed yn cynrychioli'r mwyaf.

Ffynhonnell: Data Rheoli Gwybodaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Prosiect Trailblazer

[Nodyn 1] Roedd data oedran ar goll ar gyfer 43 o gyfranogwyr

[Nodyn 2] Cyfanswm y cyfranogwyr: 695

[Nodyn 3] roedd dyddiad lansio yn amrywio rhwng y tair ardal rhwng Gorffennaf 2025 i Awst 2025.

Mae Ffigur 3.2 yn dangos bod y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr rhwng 25 a 49 oed, gan gyfrif am 43.5% o'r cyfranogwyr. Roedd cyfranogwyr 24 oed ac iau yn cyfrif am 29.9%, tra bod y rhai 50 oed a throsodd yn cyfrif am 20.4%.

Fel y dangosir yn Nhabl 3.1, ar draws yr ardaloedd peilot, roedd cyfarteledd o 74% o gyfranogwyr nad oeddent mewn cyflogaeth ac nid oeddent yn chwilio am waith pan wnaethant ymuno â'r Prosiect Trailblazer. Roedd cyfran lai heb fod mewn cyflogaeth ond yn chwilio am waith, ar gyfartaledd o 16%, tra bod rhai mewn addysg neu hyfforddiant, ar gyfartaledd o 1.8%.

Tabl 3.1 Statws cyflogaeth cyfranogwyr [Nodyn 1] [Nodyn 2]

	Yn gweithio'n rhan-amser (n)	Yn gweithio'n rhan-amser (%)	Mewn addysg neu hyfforddiant ffurfiol (n)	Mewn addysg neu hyfforddiant ffurfiol (%)	Heb fod mewn cyflogaeth ac yn chwilio am waith (n)	Heb fod mewn cyf-logaeth ac yn chwilio am waith (%)	Heb fod mewn cyflogaeth a ddim yn chwilio am waith (n)	Heb fod mewn cyflogaeth a ddim yn chwilio am waith (%)
Blaenau Gwent	[x]	[x]	19	5.4	73	20.6	177	50.0
Sir Ddinbych	[x]	[x]	[x]	[x]	13	7.7	155	92.3
Castell-nedd Port Talbot	[x]	[x]	[x]	[x]	34	19.7	138	79.8

Ffynhonnell: Data Rheoli Gwybodaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Prosiect Trail-blazer

[Nodyn 1] Cyfrifwyd y canrannau ar sail cyfanswm y cyfranogwyr fesul ardal. Nid yw celloedd gyda gwerthoedd o < 5 yn cael eu dangos

[Nodyn 2] Roedd data statws cyflogaeth ar goll ar gyfer 7 cyfranogwr

Y rhaglenni mwyaf cyffredin roedd cyfranogwyr wedi'u mynychu o'r blaen oedd:

- Blaenau Gwent: Breaking Barriers (n = 14, 2.0%)
- Sir Ddinbych: Cymunedau am Waith a Mwy (n = 116, 16.7%)
- Sir Ddinbych: Cymunedau am Waith a Mwy [troednodyn 2] (n = 116, 16.7%)
- Castell-nedd Port Talbot: Cymunedau am Waith a Mwy (n = 2, 0.3%) [troednodyn 3]

Mae Tabl 3.2 yn cyflwyno'r rhwystrau i waith a adroddwyd gan gyfranogwyr pan idd-ynt ymuno â'r Prosiect Trailblazer ar gyfer Anweithgarwch Economaidd. Mae'n dangos mai'r prif rwystrau a adroddwyd oedd diffyg swyddi a thrafnidiaeth addas, ochr yn ochr â ffactorau eraill fel hyder a sgiliau. Gallai cyfranogwyr adrodd mwy nag un rhwystr, felly dylid dehongli'r ffigurau fel yr ystod o heriau a nodwyd ar draws y grŵp cyfranogwyr gan y gallai ystod o heriau fod yn berthnasol ar yr un pryd.

[2] Mae Cymunedau am Waith a Mwy (CfW+) yn rhaglen cymorth cyflogaeth a ariennir gan Lywodraeth Cymru a gynlluniwyd i helpu pobl sy'n wynebu rhwystrau i ddod o hyd i swydd neu aros mewn swydd
[3] Roedd data rhaglen ar goll ar gyfer 398 o gyfranogwyr

Tabl 3.2 Rhwystrau i waith a adroddwyd gan gyfranogwyr pan wnaethant ymuno a'r Prosiect Trailblazer ar gyfer Anweithgarwch Economaidd [Nodyn 1] [Nodyn 2]

Rhwystr	Nifer	Canran
Swyddi addas	201	28.9
Trafnidiaeth	158	22.7
Hyder	146	21.0
Sgiliau	145	20.9
Gofal plant	77	11.1
Iechyd	56	8.1
Cyfrifoldebau gofalu	44	6.3
Digartrefedd	12	1.7
Rhwystrau ieithyddol	9	1.3
Wedi ymddeol	5	0.7

Ffynhonnell: Data Rheoli Gwybodaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Prosiect Trailblazer

[Nodyn 1] Cyfrifwyd gwerthoedd ar draws 4 newidyn: barriers, barriers_other, barriers_non-health, barriers_non_health_other (gan awgrymu y gallai'r cyfranogwyr gynnwys mwy nag 1 ymateb). Cyfrifwyd y canrannau ar sail cyfanswm y cyfranogwyr fesul (N = 695)

[Nodyn 2] Ar goll = 40 ar gyfer y newidyn 'rhwystr'

Mae Tabl 3.3 yn dangos os **oedd cyfranogwyr wedi adrodd bod ganddynt gyflwr iechyd hirdymor, ac** os **oedd hyn yn effeithio ar eu gweithgareddau o ddydd i ddydd. Mae'n dangos bod gan y rhan fwyaf o gyfranogwyr gyflwr iechyd hirdymor neu nam a effeithiodd arnynt naill ai ychydig neu lawer. Adroddodd cyfran lai nad oedd** ganddynt **unrhyw gyflwr iechyd neu nam, tra bod data ar goll ar gyfer rhai cyfranogwyr.**

Tabl 3.3 Pu'n ai os nododd cyfranogwyr fod ganddynt gyflwr iechyd hirdymor neu nam [Nodyn 1]

Statws Iechyd	Nifer	Canran
Cyflwr iechyd neu amhariad hirdymor - dim effaith	8	1.2
Cyflwr iechyd neu amhariad hirdymor - ychydig o effaith	249	35.8
Cyflwr iechyd neu amhariad hirdymor - llawer o effaith	177	25.5
Dim cyflwr iechyd nac amhariad hirdymor	64	9.2

Ffynhonnell: Data Rheoli Gwybodaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Prosiect Trailblazer

[Nodyn 1] Ar goll = 190 o gyfranogwyr

Mae Tabl 3.4 yn cyflwyno'r cyflyrau iechyd a gofnodwyd amlaf ymhlith cyfranogwyr a ymunodd â'r Prosiect Trailblazer ar gyfer Anweithgarwch Economaidd. Mae'n dangos mai iechyd meddwl oedd y cyflwr mwyaf cyffredin a adroddwyd, gan amlygu bwysigrwydd lles, meithrin hyder a chefnogaeth gyfannol y rhaglen. Gallai cyfranogwyr adrodd am fwy nag un cyflwr iechyd, felly dylid dehongli'r ffigurau fel yr ystod o rwystrau sy'n gysylltiedig ag iechyd a gofnodwyd ar draws y grŵp cyfranogwyr gan y gallai ystod o rwystrau fod yn berthnasol ar yr un pryd.

Tabl 3.4 Cyflyrau iechyd a gofnodwyd amlaf ymlith cyfranogwyr [Nodyn 1] [Nodyn 2]

Cyflwr Iechyd	Nifer	Canran
Iechyd meddwl	272	39.1
Cymdeithasol neu ymddygiadol (e.e. yn gysylltiedig ag anhwylder y sbectrwm awtistiaeth (ASD), neu anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd (ADHD))	79	11.4
Symudedd (e.e. cerdded pellteroedd byr neu ddringo'r grisiau)	76	10.9
Dysgu neu ddeall neu ganolbwyntio	33	4.7
Medrusrwydd corfforol (e.e. codi a chario gwrthrychau, defnyddio bysellfwrdd)	23	3.3

Ffynhonnell: Data Rheoli Gwybodaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Prosiect Trailblazer

[Nodyn 1] Ar goll = 79 ar gyfer y newidyn 'lt_health_condition', 645 ar gyfer y newidyn lt_health_condition_other

[Nodyn 2] Cyfrifwyd y canrannau ar sail cyfanswm y cyfranogwyr fesul (N = 695)

4. Damcaniaeth Newid – lefel rhaglen

4.1. Crynodeb

Mae'r rhan hwn yn cyflwyno 4 Damcaniaeth Newid ar gyfer y Prosiect Trailblazer ar gyfer Anweithgarwch Economaidd: Damcaniaeth Newid ar lefel rhaglen Cymru a Damcaniaethau Newid ar gyfer pob un o'r awdurdodau lleol sy'n cymryd rhan ynddi.

Datblygwyd y Damcaniaethau Newid gan ddefnyddio tystiolaeth o adolygiad o ddogfennau polisi a thystiolaeth ehangach, cyfweliadau cwmpasu â rhanddeiliaid, adolygiad o ddata'r rhaglen a 4 gweithdy Damcaniaeth Newid. Roedd gan Brosiectau Trailblazer yr awdurdodau lleol Ddamcaniaethau Newid eisoes, a ddatblygwyd fel rhan o'r gwerthusiad ar lefel y DU o'r prosiect Trailblazer a chafodd y rheini eu datblygu a'u mireinio.

4.2. Camau allwedol i ddatblygu ddamcaniaethau newid a model rhesymeg

Mae damcaniaeth newid yn offeryn a ddefnyddir i ddarlunio theori y tu ôl i ymyrraeth neu raglen, a "sut y disgwylir i'r ymyrraeth weithio yn ymarferol" i gyflawni ei nodau a ddymunir (Trysorlys EM, 2026). Mae'n helpu i ddisgrifio polisi, gwasanaeth neu raglen, ac yn darparu manylion pwysig am pam mae ymyrraeth yn angenrheidiol, pwy y bwriedir ei effeithio, sut y bydd yn gweithio, a beth y bydd yn ei gyflawni yn y pen draw. Mae modelau rhesymeg yn helpu i ddelweddu'r cadwyni achosol mewn ymyrraeth (Trysorlys EM, 2026)

Gellir defnyddio damcaniaeth newid i sefydlu'r sail ddamcaniaethol ar gyfer gwerthusiadau. Trwy nodi natur y broblem, pa ymyrraeth fydd yn cael ei chyflawni, a'r effaith yr ydym yn ei ddisgwyl, Mae hyn yn darparu meincnod y gallem farnu gweithrediad ac effeithiolrwydd polisi, gwasanaeth neu raglen yn ei erbyn.

Mae damcaniaeth newid yn nodi mewn cyfres o gamau:

1. Cyd-destun
2. Mewnbynnau
3. Gweithgareddau
4. Allbynnau
5. Canlyniadau
6. Effaith

4.3. Meini prawf cymhwystra i’r Prosiect Trailblazer ar gyfer Anweithgarwch Economaidd yng Nghymru

Er mwyn bod yn gymwys, rhaid i bobl fod:

- yn economaidd anweithgar (rhwng 16 a 64 oed), ddim yn gyflogedig nac yn ddi-waith a ddim yn bwriadu dechrau gweithio o fewn y chwe wythnos nesaf
- yn unigolion nad yw'n ofynnol iddynt ymgysylltu â chymorth cyflogaeth (e.e. gan y Ganolfan Byd Gwaith)
- y rhai â chyflyrau iechyd ac anableddau a phobl â chyfrifoldebau gofalu (ac eithrio myfyrwyr)

Felly, gallai unigolion gynnwys pobl ifanc sy'n NEET.

4.4. Mewnbynnau

Mae angen 5 mewnbwn allweddol ar gyfer y Prosiect Trailblazer ar gyfer Anweithgarwch Economaidd yng Nghymru er mwyn sicrhau y gall gweithgareddau'r rhaglen ddigwydd:

- cyllid digonol
- gwybodaeth, profiad a seilwaith sy'n bodoli eisoes i gyflwyno rhaglenni cyflog-aeth yn y gymuned (e.e. Cymunedau am Waith a Mwy)
- mynediad i leoliadau cymunedol presennol (e.e. llyfrgelloedd, canolfannau hamdden)
- gweithgorau ac amser llywodraethu
- system ddata i fonitro'r canlyniadau

4.5. Mapio gweithgaredd i ganlyniad


Yn yr adran hon, cyflwynir nifer o lwybrau o weithgareddau i ganlyniadau tymor byr, ac yna canlyniadau tymor canolig.

Galluogodd y mewnbwn cyllid gan Lywodraeth y DU nifer o weithgareddau gan gynnwys:

- recriwtio staff cyflawni (e.e. rolau brysbennu, anogwyr iechyd a llesiant)
- galluogi staff i weithio'n ddwys (o ran amlder) a datblygu perthnasoedd ag unigolion economaidd anweithgar a chyflogwyr
- capasiti ychwanegol i gysylltu â gwasanaethau iechyd, sgiliau, gwasanaeth gwirfoddol cymunedol a chyflogaeth
- y gallu i dreialu dulliau newydd heb hanes o lwyddiant: dull profi a dysgu

4.5.1. Llwybr ar gyfer rhannu gwybodaeth ac integreiddio systemau

Ffigur 4.1 Llwybr ar gyfer rhannu gwybodaeth ac integreiddio systemau yn y Prosiect Trailblazer yng Nghymru




Disgrifiad o Ffigur 4.1: Ffigur sy'n dangos mewn blychau testun y gweithgareddau, y canlyniadau tymor byr a thymor canolig ar gyfer y llwybr rhannu gwybodaeth ac

integreiddio systemau. Mae'r ffigur yn dangos sut mae disgwyl i gydweithredu rhwng gwasanaethau cyflogaeth, iechyd a chymorth arwain at ganlyniadau. Bwriad gweithgareddau fel rhannu gwybodaeth, datblygu perthynas â darparwyr iechyd, mwy o gydlynu a gwell mynediad at gymorth llesiant yw cynyddu cysylltiadau rhwng gwasanaethau iechyd a chyflogaeth yn y tymor byr. Dros amser, disgwylir i hyn wella'r ffordd mae gwasanaethau'n cael eu cydlynu, nodi bylchau cyfredol, cryfhau rhannu data a chynhyrchu dysgu ar gefnogi pobl sy'n economaidd anweithgar tuag at waith.

4.5.2. Llwybrau ar gyfer ymgysylltu a chefnogi cyfranogwyr

Ffigur 4.2 Llwybrau ar gyfer ymgysylltu a chefnogi cyfranogwyr y Prosiect Trailblazer yng Nghymru [troednodyn 4][troednodyn 5]




[4] Mae rhagor o wybodaeth am y Raddfa Hunaneffeithlonrwydd Cyffredinol (GSE) ar gael yn: https://measure-wellbeing.org/measures-bank/gse/
Mae rhagor o wybodaeth am Raddfa Hunan-barch Rosenberg (RSE) ar gael yn: https://www.apa.org/obesity-guideline/rosenberg-self-esteem.pdf
[5] GAD-7 (Generalised Anxiety Disorder 7-item scale); RSES (Rosenberg Self-Esteem Scale)

Disgrifiad o Ffigur 4.2: Ffigur sy'n dangos mewn blychau testun y gweithgareddau, y canlyniadau tymor byr a'r canlyniadau tymor canolig. Mae'r ffigur yn dangos sut mae disgwyl i weithgareddau ymgysylltu a chymorth arwain at ganlyniadau tymor byr a chanolig. Nod allgymorth, ymgysylltu â'r gymuned, offer digidol, hyfforddiant sgiliau, mynediad at ddarpariaeth iechyd a llesiant a chymorth cofleidiol yw cynyddu ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau sydd ar gael a gwella atgyfeiriadau, ymddiriedaeth a hyder, gan leihau ynysu cymdeithasol a gwella sgiliau bywyd. Bwriad y newidiadau tymor byr hyn yw cyfrannu at welliannau mewn iechyd a llesiant, gan arwain at ymgysylltiad mwy parhaus â rhaglenni cymorth a chyfraddau uwch o gwblhau rhaglenni.

4.5.3. Llwybr i gyflogwyr

Ffigur 4.3 Llwybr i gyflogwyr y Prosiect Trailblazer yng Nghymru



Disgrifiad o Ffigur 4.3: Ffigur sy'n dangos mewn blychau testun y gweithgareddau, y canlyniadau tymor byr a'r canlyniadau tymor canolig. Mae'r ffigur yn dangos sut mae disgwyl i weithgareddau ymgysylltu â chyflogwyr wella canlyniadau i bobl â chyflyrau iechyd neu anableddau. Mae'r gweithgareddau'n canolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth cyflogwyr, hyrwyddo arferion recriwtio cynhwysol, helpu i ddylunio swyddi a chynyddu mynediad at brofiad gwaith a chyfleoedd gwirfoddoli. Bwriad y camau hyn yw gwella gwybodaeth ac ymwybyddiaeth cyflogwyr o gynhwysiant yn y tymor byr, gan arwain at fwy o hyder wrth recriwtio rhywun â chyflwr iechyd neu anabledd, arferion cyflogaeth mwy cynhwysol, a sicrhau bod mwy o waith hyblyg a chyfleoedd seiliedig ar waith ar gael.

4.6. Risgiau allweddol i'r Prosiect Trailblazer yng Nghymru

Nodwyd risgiau allanol a mewnol i ardaloedd y Prosiect Trailblazer ar draws y tri awdurdod lleol.

Mae'r risgiau allanol i awdurdodau lleol yn cynnwys:

- amseroedd byr ar gyfer cwblhau prosesau cyllido a chyflawni
- cylchoedd cyllido ac amserlenni cyflawni tymor byr
- anawsterau o ran ymgysylltu ag unigolion economaidd anweithgar, gwasanaethau iechyd, Gwasanaeth Cymunedol Gwirfoddol a chyflogwyr
- rhwystrau i rannu data
- newidiadau i'r amgylchedd gwleidyddol a'r blaenoriaethau ar lefel y DU, Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol
- effaith newidiadau diweddar i'r Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yng Nghymru yn effeithio ar lefel ymddiriedaeth unigolion economaidd anweithgar yn Llywodraeth Cymru a'r Adran Gwaith a Phensiynau

Mae'r risgiau mewnol i awdurdodau lleol yn cynnwys:

- heriau o ran dysgu am ymarfer effeithiol yn ymwneud ag ystod eang o ymyriadau
- tensiynau rhwng arloesi ac erbyn ehangu gwasanaethau presennol
- anawsterau'n ymwneud â recriwtio a chadw staff cymwys
- heriau o ran sicrhau bod y ddarpariaeth yn wahanol i gynigion eraill h.y. dangos i unigolion economaidd anweithgar sut y mae'n wahanol
- effaith adnoddau a systemau Awdurdodau Lleol ar gydlynu a chyflawni

4.7. Effaith hirdymor y bwriedir i'r rhaglen ei chael

Nod y Prosiect Trailblazer ar gyfer Anweithgaredd Economaidd yng Nghymru yw datblygu dulliau amlasiantaeth newydd a chynaliadwy o fynd i'r afael ag anweithgarwch economaidd. Bydd dulliau arloesol o ymgysylltu ag unigolion sy'n economaidd anweithgar a'u cefnogi yn cael eu profi ar draws y gwasanaethau dan sylw. Bydd gwybodaeth am ddulliau gweithredu effeithiol yn cael ei hymgorffori yn y ddarpariaeth yn y dyfodol.

O safbwynt y cyfranogwr, bydd eu profiad o wasanaethau iechyd, sgiliau a chyflogaeth yn cael ei symleiddio, a bydd modd cael gafael ar wasanaethau lluosog drwy un pwynt mynediad. Bydd y gweithgareddau y mae'r cyfranogwyr yn cymryd rhan ynddynt yn eu helpu i ddod yn fwy gweithgar yn eu cymuned leol, cymryd rhan mewn hyfforddiant a dechrau meddwl am gael gwaith. Drwy ddatblygu cysylltiadau

cymunedol cryfach, bydd y cyfranogwyr hefyd yn datblygu rhwydwaith cymorth ehangach ac yn dod yn llai dibynnol ar wasanaethau cyhoeddus o ganlyniad.

Bydd gweithgareddau sydd wedi'u targedu at gyflogwyr yn eu helpu i weithio tuag at fabwysiadu arferion recriwtio a gweithle mwy cynhwysol, a fydd yn y pen draw yn helpu i greu gweithlu mwy amrywiol a lleihau'r bwlch cyflogaeth i bobl anabl dros amser.

5. Damcaniaeth newid ar gyfer Castell-nedd Port Talbot

5.1. Meini prawf cymhwystra

Rhaid i bobl sy'n gymwys ar gyfer Prosiect Trailblazer Castell-nedd Port Talbot fod yn:

- economaidd anweithgar (ddim yn bwriadu dechrau gweithio yn y 6 wythnos nesaf)
- dioddef o gyflwr iechyd hirdymor a/neu anabledd
- gyffredinol, bod rhwng 16 a 64 oed (er y gall rhai fod 65 oed neu drosodd)
- wynebu rhwystrau lluosog i gyflogaeth

O fewn y meini prawf hyn, mae rhanddeiliaid yn disgwyl ymgysylltu â, a chefnogi:

- gofalwyr
- lleiafrifoedd ethnig
- cyn-droseddwyr
- unigolion niwroamrywiol
- pobl o'r gymuned Sipsiwn, Roma a Theithwyr
- cymunedau LHDTC+
- pobl sydd wedi'u hynysu'n gymdeithasol ac nad ydynt yn rhan o'r gymuned leol
- pobl anabl

5.2. Mewnbynnau

Mae 5 mewnbwn allweddol ym Mhrosiect Trailblazer Castell-nedd Port Talbot:


- cynigiwyd cyllid o £2.5 miliwn
- staff newydd a thua 6 aelod o staff ar secondiad
- amser ac arbenigedd o glwstwr Gofal Sylfaenol Afan
- gwariant ar gyfranogwyr (e.e. hyfforddiant, aelodaeth, trafnidiaeth)
- gweithgorau ac amser llywodraethu

5.3. Mapio gweithgaredd i ganlyniad

Yn yr adran hon, cyflwynir nifer o lwybrau o weithgareddau i ganlyniadau tymor byr, ac yna i ganlyniadau tymor canolig. Mae'r mewnbynnau (adran 5.2) yn galluogi nifer o weithgareddau a gyflwynir yn adrannau 5.3.1 i 5.3.4.

5.3.1. Llwybrau a mecanweithiau ar gyfer ymgysylltu â chyfranogwyr

Ffigur 5.1 Llwybrau a mecanweithiau ar gyfer ymgysylltu â chyfranogwyr Castell-nedd Port Talbot



Disgrifiad o Ffigur 5.1: Ffigur sy'n dangos gweithgareddau, allbynnau, canlyniadau tymor byr a chanlyniadau tymor canolig mewn cyfres o flychau testun. Defnyddir saethau i ddangos llwybrau. Mae'r cylchoedd wedi'u rhifo yn dangos y mecanweithiau (a ddisgrifir yn y paragraff nesaf). Mae'r ffigur yn dangos sut mae disgwyl i lwybrau ymgysylltu gwell gynyddu cyfranogiad mewn rhaglenni cymorth. Mae gweithgareddau fel gwell brysbennu, digwyddiadau allgymorth a chymorth therapi galwedigaethol yn creu allbynnau gan gynnwys gwasanaethau brysbennu gwell, ymgysylltu â'r gymuned a therapyddion galwedigaethol a meddygon teulu yn gweithio gyda'i gilydd. Bwriad yr allbynnau hyn yw cynyddu ymwybyddiaeth o gymorth ac atgyfeiriadau i raglenni, gan arwain at gyfraddau cwblhau uwch ac ymgysylltu mwy parhaus ar raglenni.

Mae Ffigur 5.1 yn dangos 3 mecanwaith gwahanol


1. **Y broses frysbennu yn cael ei chefnogi gan wasanaeth cyflogadwyedd ehangach CNPT:** Bydd swyddogion partneriaeth yn rhan o wasanaeth cyflogadwyedd CNPT. Mae'r gwasanaeth canolog hwn yn derbyn atgyfeiriadau o wahanol ffynonellau (Canolfan Gwaith, cymorth tai, gwasanaeth prawf). Mae hefyd yn cwmpasu darpariaeth cyflogaeth gymunedol arall, fel Cymunedau am Waith a Mwy. Bydd hyn yn sicrhau y gall swyddogion y bartneriaeth weithio'n effeithiol gyda phartneriaid lleol i nodi cyfranogwyr addas, a chynnal cyflwyniadau lle bo modd.

2. **Ffocws cyfannol:** Bydd darpar gyfranogwyr yn ymatebol i ffocws cyfannol y rhaglen o ran archwilio a chefnogi eu hamcanion iechyd a llesiant (yn hytrach na chyflogaeth), a fydd yn eu hannog i ymgysylltu â chymorth pellach.

3. **Bydd y gweithgareddau'n hwyliog ac yn ddiddorol:** Bydd gweithgareddau allgymorth cymunedol yn rhai cymdeithasol a difyr, gan leihau ynysu cymdeithasol, ac annog pobl i ymgysylltu ymhellach.

5.3.2. Llwybrau a mecanweithiau cymorth i gyfranogwyr Working Well for You

Ffigwr 5.2 Llwybrau a mecanweithiau cymorth 'Working Well for You' i gyfranogwyr Castell-nedd Port Talbot



Disgrifiad o Ffigur 5.2: Ffigur sy'n dangos gweithgareddau, allbynnau, canlyniadau tymor byr a chanlyniadau tymor canolig mewn cyfres o flychau testun. Defnyddir saethau i ddangos llwybrau. Mae'r cylchoedd wedi'u rhifo yn dangos y mecanweithiau (a ddisgrifir yn y paragraff nesaf). Mae'r model hwn yn dangos sut mae disgwyl i gymorth wedi'i bersonoli wella canlyniadau i gyfranogwyr â chyflyrau iechyd ac anableddau. Mae hyfforddiant gwaith ac iechyd un-i-un, cymorth cynhwysiant digidol a rhaglenni llesiant dan arweiniad cymheiriaid yn cynyddu mynediad at gymorth wedi'i dargedu, adnoddau digidol a rhwydweithiau cymunedol. Bwriad y gweithgareddau hyn yw gwella hyder, sgiliau, tra'n lleihau ynysu cymdeithasol. Yn y tymor canolig, disgwylir i hyn arwain at ymgysylltu parhaus ar raglenni, gwell canlyniadau iechyd, datblygu sgiliau, a chydlynu cryfach rhwng partneriaid iechyd a chyflogaeth.

Mae Ffigur 5.2 yn dangos 3 mecanwaith gwahanol


1. **Profiad bywyd staff sy'n darparu gwasanaethau**: Mae gan anogwyr gwaith ac iechyd brofiad bywyd o fod yn ddi-waith oherwydd salwch. Mae eu profiad bywyd yn helpu cyfranogwyr i deimlo eu bod yn cael eu deall ac yn ennyn ymddiriedaeth, sy'n cefnogi eu hymgysylltiad parhaus.

2. **Newid naratif personol**: Drwy ymgysylltu â modelau rôl, bydd naratif personol cyfranogwyr ynghylch eu cyflwr iechyd yn newid i fod yn gadarnhaol. Bydd eu hyder o ran eu gallu i weithio yn cynyddu a byddant yn gweld eu cyflwr mewn goleuni mwy cadarnhaol.

3. **Cynnig cymorth ymatebol:** Bydd y cyfranogwyr yn gallu cael mynediad at gymorth cyffredinol yn gyflym, a fydd yn helpu i gynyddu eu hyder yn y gwasanaeth ac yn sicrhau bod y cynnig hwn yn wahanol i wasanaethau lleol eraill

5.3.3. Llwybrau a mecanweithiau cymorth i gyfranogwyr 'Living well for you'

Ffigur 5.3 Llwybrau a mecanweithiau cymorth i gyfranogwyr 'Living Well for You' Castell-Nedd Port Talbot




Disgrifiad o Ffigur 5.3: Ffigur sy'n dangos gweithgareddau, allbynnau a chanlyniadau tymor byr mewn cyfres o flychau testun. Defnyddir saethau i ddangos llwybrau. Mae'r cylchoedd wedi'u rhifo yn dangos y mecanweithiau (a ddisgrifir yn y paragraff nesaf). Mae'r model hwn yn dangos mai nod y rhaglen, drwy ddarparu cymorth pwrpasol, ymweliadau â'r gweithle a chyfleoedd gwirfoddoli, yw cynyddu hyder, sgiliau a dealltwriaeth o waith tra'n lleihau ynysu cymdeithasol. Disgwylir i'r newidiadau hyn arwain at well cymwysterau, dilyniant i leoliadau gwaith a mwy o atgyfeiriadau at gymorth cyflogaeth prif ffrwd.

Mae Ffigur 5.3 yn dangos 3 mecanwaith gwahanol

1. **Gweithgareddau cymdeithasol:** Bydd gweithgareddau cymunedol yn rhai cymdeithasol, gan leihau ynysu cymdeithasol, ac annog pobl i ymgysylltu ymhellach
2. **Newid agweddau rhwng y cenedlaethau tuag at gyflogaeth:** Drwy ddarparu cyfleoedd i ddysgu am sut beth yw gweithio mewn gwahanol sectorau/rolau, bydd gan gyfranogwyr well syniad o ba gyfleoedd sydd ar gael iddynt. Bydd hyn, yn ei dro, yn rhoi mwy o gymhelliant iddynt fynd ar drywydd cyflogaeth.
3. **Effaith rhwydweithiau cymdeithasol:** Drwy gysylltu â chyflogwyr a gwahanol weithleoedd bydd y cyfranogwyr yn ehangu eu rhwydweithiau cymdeithasol, a fydd yn ei dro yn darparu gwybodaeth ychwanegol am brofiadau pobl eraill o waith a'r mathau o gyfleoedd sydd ar gael. Bydd y ffocws ar leihau ynysu cymdeithasol ac adeiladu rhwydweithiau o gyfoedion sy'n gyfranogwyr drwy gydol y rhaglen hon hefyd yn cefnogi'r canlyniad hwn.

5.3.4. Llwybrau a mecanweithiau i gyflogwyr

Ffigur 5.4 Llwybrau a mecanweithiau i gyflogwyr Castell-Nedd Port Talbot



Disgrifiad o Ffigur 5.4: Ffigur sy'n dangos gweithgareddau, allbynnau a chanlyniadau tymor byr mewn cyfres o flychau testun. Defnyddir saethau i ddangos llwybrau. Mae'r cylchoedd wedi'u rhifo yn dangos y mecanweithiau (a ddisgrifir yn y paragraff nesaf). Mae'r model hwn yn dangos sut mae cynghorwyr cyflogwyr ac eiriolwyr anabledd yn gweithio gyda busnesau i nodi lleoliadau cynhwysol a chyfleoedd gwaith â thâl. Mae hyn yn arwain at fwy o ymwybyddiaeth ymhlith cyflogwyr o arferion cynhwysol ac ymrwymiadau i gefnogi. Yn y tymor canolig, nod y dull yw annog arferion recriwtio a gweithle mwy cynhwysol.

Mae Ffigur 5.4 yn dangos 2 fecanwaith gwahanol

1. Effaith newidiadau bach: Mae staff cyflawni yn dangos i gyflogwyr mai dim ond newidiadau bach sydd eu hangen weithiau er mwyn gwella hygyrchedd rolau o fewn eu busnes. Mae hyn yn helpu i annog mwy o gyflogwyr i fabwysiadu arferion cynhwysol yn y dyfodol mewn perthynas â recriwtio a'r gweithle.

2. Newidiadau mewn agweddau a diwylliant: Mae'r adduned yn llwybr i gyflogwyr ymgymryd â newid ehangach yn eu dull o sicrhau cynhwysiant yn y gweithle. Bydd cyflogwyr yn cwestiynu'n fwy trylwyr yr hyn maen nhw'n ei wneud, gan ymgymryd â hunanasesiad a dwyn eu hunain i gyfrif am amrywiaeth y gweithlu, gan nodi bylchau yn eu dull gweithredu presennol.

5.4. Rhagdybiaethau allweddol yn ôl llwybr

Yn yr adran hon cyflwynir y prif ragdybiaethau sy'n gysylltiedig â'r llwybrau.

Prif ragdybiaethau ar gyfer y llwybrau ymgysylltu â chyfranogwyr (5.3.1):

- bydd pobl yn fodlon ac yn gallu ymgysylltu pan fydd gweithgaredd allgymorth yn digwydd
- bydd bod yn bresennol mewn lleoliadau a mannau bob-dydd yn cyrraedd grwpiau newydd ac yn caniatáu i berthnasoedd o ymddiriedaeth ddatblygu
- bydd y cyfraddau ymgysylltu yn ddigonol i gynhyrchu digon o bobl yn y grwpiau targed i'w cefnogi

Prif ragdybiaethau ar gyfer llwybrau cymorth cyfranogwyr (5.3.2 a 5.3.3):

- bydd cymorth unigol, hyblyg, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, yn diwallu anghenion y cyfranogwyr ac mae cymorth ehangach addas ar gael.
- bydd y cyfranogwyr yn datblygu rhywfaint o hunan effeithiolrwydd a byddant yn dod yn llai dibynnol ar y system gymorth dros amser.

Prif ragdybiaethau ar gyfer y llwybrau ymgysylltu â chyflogwyr (5.3.4):

- mae cyflogwyr eisiau cymryd rhan mewn hyfforddiant ymwybyddiaeth o anabledd a gwneud addasiadau i'w prosesau recriwtio
- mae gan gyflogwyr y gallu a'r parodrwydd i newid polisïau ac arferion

5.5. Risgiau allweddol yn ôl llwybr

Yn yr adran hon cyflwynir y prif risgiau sy'n gysylltiedig â'r llwybrau.

Prif risgiau ar gyfer y llwybrau ymgysylltu â chyfranogwyr (5.3.1):

- rhwystrau'n ymwneud â mynediad (e.e. trafnidiaeth)
- dod o hyd i bobl y tu allan i leoliadau ffurfiol
- pobl nad ydynt yn ymwybodol o sut y mae cynnig y Prosiect Trailblazer yn wahanol

Prif risgiau ar gyfer llwybrau cymorth cyfranogwyr (5.3.2 a 5.3.3):

- methu â mynd i'r afael ag anghenion iechyd
- cyfranogwyr yn dychwelyd i fod yn economaidd anweithgar
- profiadau gwael o wasanaethau cymorth eraill
- ffactorau rhwng y cenedlaethau sydd wedi hen fwrw gwreiddiau

Prif risgiau i'r llwybrau ymgysylltu â chyflogwyr (5.3.4):

- polisi/diwylliannol yn araf i newid
- ffactorau economaidd
- cyswllt cydlynol

Prif risgiau ar gyfer integreiddio systemau a rhannu data:

- terfynau rhannu data
- cyllid tymor byr
- cymorth a chefnogaeth cyfyngedig gan y sector iechyd
- recriwtio a chadw staff
- newidiadau i'r system yn cymryd amser i'w cyflawni

5.6. Effaith hirdymor y bwriedir i'r rhaglen ei chael

Nod y Prosiect Trailblazer yw creu effeithiau hirdymor sy'n gwella canlyniadau i bobl, cymunedau a'r system ehangach.

Cyfranogwyr

Dros amser, nod y rhaglen yw rhoi mwy o ymdeimlad o bwrpas a chymuned i'r cyfranogwyr. Bydd yn cyflawni hyn drwy wella hunan-barch y cyfranogwyr a'r hyder sydd ganddynt yn eu galluoedd eu hunain. Ochr yn ochr â hyn, bydd y rhaglen yn gwneud i'r cyfranogwyr deimlo'n llai ynysig yn gymdeithasol ac yn ehangu eu rhwydwaith cymdeithasol.

Sgil-effaith y manteision personol a chymdeithasol hyn - yn ogystal â darpariaeth iechyd a llesiant fwy cyfannol sydd wedi'i thargedu, a chyfleoedd gwaith mwy hygyrch - fydd iechyd meddwl a llesiant emosiynol gwell. Bydd hyn, yn ei dro, yn helpu i leihau'r galw ar y system iechyd ehangach.

Sefydliadau sy'n gysylltiedig â'r Prosiect Trailblazer

Ar lefel y system, mae'r rhaglen yn bwriadu sefydlu dull cynaliadwy o ymdrin â gwaith amlasiantaeth gyda phartneriaid ar draws y meysydd gwaith ac iechyd yn parhau i gydweithio a chroesgyfeirio. Mae hefyd yn bwriadu sefydlu gweithgareddau dan arweiniad y gymuned (e.e. grwpiau cymorth, gwirfoddoli) a all barhau i gefnogi cynnydd unigolion economaidd anweithgar y tu hwnt i gyllid y Prosiect Trailblazer.

6. Damcaniaeth newid ar gyfer Blaenau Gwent

6.1. Meini prawf cymhwystra

Rhaid i bobl sy'n gymwys ar gyfer Prosiect Trailblazer Blaenau Gwent fod:

- yn economaidd anweithgar (ddim yn rhan o'r gweithlu a ddim yn gallu gweithio yn y pythefnos nesaf neu ddim wedi bod yn chwilio am waith yn ystod y 4 wythnos diwethaf)
- yn dioddef o gyflwr iechyd hirdymor a/neu anabledd
- rhwng 16 a 64 oed

O fewn y meini prawf hyn, mae rhanddeiliaid yn disgwyl ymgysylltu â, a chefnogi:

- gofalwyr
- chwaraewyr gemau fideo ifanc
- teuluoedd rhiant sengl
- oedolion ag anawsterau ac anableddau dysgu
- pobl o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr

6.2. Mewnbynnau

Mae saith mewnbwn allweddol ym Mhrosiect Traiblazer Blaenau Gwent


- cynigiwyd cyllid o £2.5 miliwn
- 9 swydd fewnol newydd, gan gynnwys 6 anogwr llesiant a 2 swyddog partner-iaeth
- amser Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
- gwariant ar gyfranogwyr (e.e. hyfforddiant, aelodaeth o gampfa, trafnidiaeth)
- amser partneriaid cyflawni
- gweithgorau ac amser llywodraethu
- system rheoli achosion newydd (Access Elemental)

6.3. Mapio gweithgaredd i ganlyniad

Yn yr adran hon, cyflwynir nifer o lwybrau o weithgareddau i ganlyniadau tymor byr, ac yna i ganlyniadau tymor canolig. Mae'r mewnbynnau (adran 6.2) yn galluogi nifer o weithgareddau a gyflwynir yn adrannau 6.3.1 i 6.3.4.

6.3.1. Llwybrau a mecanweithiau ar gyfer ymgysylltu â chyfranogwyr

Ffigur 6.1 Llwybrau a mecanweithiau ar gyfer ymgysylltu â chyfranogwyr Blaenau Gwent




Disgrifiad o Ffigur 6.1: Ffigur sy'n dangos gweithgareddau, allbynnau a chanlyniadau tymor byr mewn cyfres o flychau testun. Defnyddir saethau i ddangos llwybrau. Mae'r cylchoedd wedi'u rhifo yn dangos y mecanweithiau (a ddisgrifir yn y paragraff nesaf). Mae'r model hwn yn dangos sut mae disgwyl i allgymorth cymunedol, ymgysylltu digidol a brysbennu gynyddu ymgysylltiad ac atgyfeiriadau at gefnogaeth a gwasanaethau cymorth ehangach ymhlith unigolion economaidd anweithgar. Mae gweithgareddau ymgysylltu yn codi ymwybyddiaeth o'r cymorth sydd ar gael ac yn gwella hyder a chymhelliant i ymgysylltu.

Mae Ffigur 6.1 yn dangos 6 mecanwaith gwahanol

1. **Cwrdd â phobl ble bynnag y maent:** Meithrin diogelwch a normaleiddio ymgysylltiad oherwydd bod cyfranogwyr yn canfod cymorth mewn mannau cyfarwydd.
2. **Llawer o leoedd:** Mae drysau lluosog yn cynyddu'r tebygolrwydd o ddod i gysylltiad â phobl na fyddent yn mynd ati'n rhagweithiol i chwilio am waith neu gymorth llesiant.
3. **Ymgysylltiad heb lawer o bwysau, sy'n seiliedig ar ddiddordeb:** Yn defnyddio gweithgareddau pleserus, anfygythiol i feithrin ymddiriedaeth, hyder cymdeithasol a chysylltiad cychwynnol.
4. **Dileu rhwystrau strwythurol i ymgysylltu:** Caiff rhwystrau ymarferol eu dileu er mwyn sicrhau mai cymhelliant a pharodrwydd yw'r prif ffactorau sy'n dylanwadu ar ymgysylltiad.
5. **Defnyddio perthnasoedd o ymddiriedaeth i ymgysylltu:** Mae ymddiriedaeth yn darparu'r sylfaen ar gyfer ymgysylltu pellach, datgelu anghenion a pharodrwydd i dderbyn cymorth.
6. **Mae meithrin llesiant yn gyntaf yn cefnogi parodrwydd i ymgysylltu:** Pan fydd pobl yn teimlo'n well, maent yn fwy parod i ystyried rhagor o gymorth neu lwybrau cyflogaeth.

6.3.2. Llwybrau a mecanweithiau cymorth i gyfranogwyr [troednodyn 6]

Ffigur 6.2 Llwybrau a mecanweithiau cymorth i gyfranogwyr Blaenau Gwent



[6] GAD (Generalised Anxiety Disorder scale)


Disgrifiad o Ffigur 6.2: Disgrifiad o Ffigur 6.4: Ffigur sy'n dangos gweithgareddau, allbynnau a chanlyniadau tymor byr mewn cyfres o flychau testun. Defnyddir saethau i ddangos llwybrau. Mae'r cylchoedd wedi'u rhifo yn dangos y mecanweithiau (a ddisgrifir yn y paragraff nesaf). Mae'r model hwn yn dangos sut mae disgwyl i goetsio un-i-un, atgyfeiriadau, gweithgareddau cymunedol a chyfleoedd sy'n gysylltiedig â gwaith wella llesiant, cynyddu ymddiriedaeth mewn gwasanaethau cymorth a datblygu sgiliau bywyd ymarferol. Dros y tymor hwy, nod y newidiadau hyn yw gwneud pobl yn fwy agored i weithio, gwella parodrwydd ar gyfer gweithgareddau sy'n gysylltiedig â chyflogaeth a chefnogi dilyniant i wasanaethau cymorth cyflogaeth.

Mae Ffigur 6.2 yn dangos 3 mecanwaith gwahanol

7. **Cymorth hyblyg, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn**: Mae'r cyfranogwyr yn profi'r gwasanaeth fel un ymatebol a pharchus, sy'n cynyddu ymddiriedaeth, yn lleihau pryder, ac yn annog ymgysylltiad parhaus.
8. **Ymarfer sy'n seiliedig ar berthnasoedd:** Mae'r berthynas o ymddiriedaeth yn caniatáu i faterion dyfnach ddod i'r amlwg, gan alluogi gweithwyr i deilwra'r cymorth yn fwy effeithiol a chyfeirio pobl at y gwasanaethau cywir.
9. **Platfform ymgysylltu:** Drwy ddelio ag achosion sylfaenol ymddieithrio (e.e., ynysu, gorbryder, salwch), mae'r cyfranogwyr yn meithrin y sefydlogrwydd a'r hyder sydd eu hangen i ymgysylltu â gwasanaethau cymorth. Mae sefydlogrwydd emosiynol, cymhelliant a hyder yn codi, gan alluogi cyfranogwyr i ystyried gwirfoddoli, hyfforddiant neu waith gyda mwy o lwyddiant.

6.3.3. Llwybrau i gyflogwyr

Ffigur 6.3 Llwybrau i gyflogwyr Blaenau Gwent




Disgrifiad o ffigur 6.3: Ffigur sy'n dangos gweithgareddau, allbynnau a chanlyniadau tymor byr mewn cyfres o flychau testun. Defnyddir saethau i ddangos llwybrau. Mae'r cylchoedd wedi'u rhifo yn dangos y mecanweithiau (a ddisgrifir yn y paragraff nesaf). Mae'r model hwn yn dangos gweithgareddau gan gynnwys ymgysylltu â chyflogwyr, darparu hyfforddiant ar anabledd a hygyrchedd, a chefnogaeth bwrpasol i gyflogwyr, gan arwain at amrywiaeth o allbynnau gan gynnwys digwyddiadau ymgysylltu, cyflogwyr yn cael cefnogaeth, treialon gwaith yn cael eu cynnig a sesiynau hyfforddi yn cael eu cynnal. Mae'r camau hyn yn cynyddu gwybodaeth cyflogwyr am arferion cynhwysol yn y tymor canolig, gan arwain at ddulliau recriwtio mwy cynhwysol dros y tymor hwy.

Mae Ffigur 6.3 yn dangos 3 mecanwaith gwahanol

1. **Hyfforddiant wedi'i deilwra i gyflogwyr:** Hyfforddiant i gyflogwyr sy'n ymwneud yn benodol ag anghenion pob busnes. Mae'n chwalu mythau a chamsyniadau, gan roi'r hyder i gyflogwyr gynnig addasiadau priodol a chyflogi cyfranogwyr y gallent eu hanwybyddu fel arall.
2. **Meithrin perthynas**: mae ymgysylltu perthynol, wyneb yn wyneb yn lleihau pryder cyflogwyr, yn meithrin ymddiriedaeth, ac yn helpu i normaleiddio recriwtio pobl â chyflyrau iechyd ac anableddau i'r gweithle.
3. **Agor drysau:** Bydd y tîm yn helpu cyflogwyr i ailgynllunio eu prosesau ymgeisio, asesu a chyfweld.

6.3.4. Llwybrau a mecanweithiau integreiddio systemau a rhannu data

Ffigur 6.4 Llwybrau a mecanweithiau integreiddio systemau a rhannu data Blaenau Gwent



Disgrifiad o Ffigur 6.4: Ffigur sy'n dangos gweithgareddau, allbynnau a chanlyniadau tymor byr mewn cyfres o flychau testun. Defnyddir saethau i ddangos llwybrau. Mae'r cylchoedd wedi'u rhifo yn dangos y mecanweithiau (a ddisgrifir yn y paragraff nesaf). Mae'r model hwn yn dangos sut mae disgwyl i rannu systemau rheoli achosion a sesiynau ymgysylltu rheolaidd wella'r broses o gydlynu llwybrau atgyfeirio a theithiau cyfranogwyr a gwella dealltwriaeth o angen cyfranogwyr. Dros amser, nod y gweithgareddau hyn yw creu proses benderfynu mwy gwybodus ynghylch parhad rhaglenni, bylchau a phrosiectau newydd.

Mae Ffigur 6.4 yn dangos 4 mecanwaith gwahanol

1. **System rheoli achosion a rennir:** Mae partneriaid yn atgyfeirio neu'n cyfeirio cyfranogwyr yn uniongyrchol at y naill a'r llall gan ddefnyddio'r system Access Elemental, sy'n cynnwys pob Prosiect Trailblazer a map o ymyriadau lleol. Mae mynediad a rennir yn lleihau gwrthdaro ac oedi wrth anfon pobl at y cymorth cywir ac yn sicrhau llwybr atgyfeirio cyson ar draws sefydliadau.
2. **Safonau data cyffredin:** Mae'r system a rennir yn darparu data cyson ar: ddemograffeg, sgoriau llesiant, teithiau cyfranogwyr, a phresgripsiynau cymdeithasol. Mae metrigau a gweledegd a rennir ar draws timau yn golygu y gall partneriaid weld achosion o orgyffwrdd, lleihau dyblygu, a chydlynu gwasanaethau'n fwy effeithiol.
3. **Fframwaith mesur a rennir:** Mae fframwaith mesur a rennir yn caniatáu i bartneriaid fod yn gyson o ran yr hyn y mae “cynnydd” yn ei olygu a nodi pryd mae rhywun yn barod ar gyfer y cam nesaf o gymorth.
4. **Cydlynu partneriaid:** Mae rhyngweithio mynych yn meithrin perthnasoedd a gwybodaeth, sy'n gwella atgyfeiriadau, datrys problemau, ac yn lleihau dyblygu.

6.4. Rhagdybiaethau allweddol

Yn yr adran hon cyflwynir y prif ragdybiaethau sy'n gysylltiedig â'r llwybrau.

Prif ragdybiaethau ar gyfer y llwybrau ymgysylltu â chyfranogwyr (6.3.1):

- bydd pobl yn fodlon ac yn gallu ymgysylltu pan fydd gweithgaredd allgymorth yn digwydd
- bydd bod yn bresennol mewn lleoliadau a mannau bob-dydd yn cyrraedd grwpiau newydd
- bydd y cyfraddau ymgysylltu yn ddigonol i gynhyrchu digon o bobl yn y grwpiau targed i'w cefnogi

Prif ragdybiaethau ar gyfer y llwybrau cymorth cyfranogwyr (6.3.2):

- bydd cymorth unigol, hyblyg, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, yn diwallu anghenion y cyfranogwyr ac mae cymorth ehangach addas ar gael
- bydd y cyfranogwyr yn parhau i fod â chymhelliant i fanteisio ar gymorth yn ddigon hir er mwyn i newid ddigwydd

Prif ragdybiaethau ar gyfer y llwybrau ymgysylltu â chyflogwyr (6.3.3):

- mae cyflogwyr eisiau cymryd rhan mewn hyfforddiant ymwybyddiaeth o anabledd a gwneud addasiadau i'w prosesau recriwtio
- mae gan gyflogwyr y gallu a'r parodrwydd i newid polisïau ac arferion.

Prif ragdybiaethau ar gyfer llwybrau integreiddio systemau a rhannu data (6.3.4):

- bydd y system Access Elemental ar waith erbyn mis Mawrth 2026
- bydd pob partner yn defnyddio'r system newydd mewn ffordd gyson
- mae gan staff ddyfeisiau, cysylltedd, neu offer cynorthwyol dibynadwy i'w gallu i ddefnyddio Access Elemental. Gall staff ddefnyddio'r system yr un mor effeithiol gyda chleientiaid o bob grŵp defnyddwyr

6.5. Risgiau allweddol

Yn yr adran hon cyflwynir y prif risgiau sy'n gysylltiedig â'r llwybrau.

Prif risgiau ar gyfer y llwybrau ymgysylltu â chyfranogwyr (6.3.1):

- rhwystrau i fynediad
- dod o hyd i bobl y tu allan i leoliadau ffurfiol
- anhawster i newid meddyliau
- cymhlethdod brysbennu

Prif risgiau ar gyfer y llwybrau cymorth i gyfranogwyr (6.3.2):

- anghenion cudd/lluosog
- diffyg capasiti i ddarparu cymorth
- ofn colli budd-daliadau
- peidio â bod yn well eu byd mewn gwaith
- ffactorau rhwng y cenedlaethau sydd wedi hen fwrw gwreiddiau

Prif risgiau i'r llwybrau ymgysylltu â chyflogwyr (6.3.3):

- polisi/diwylliant yn araf i newid
- ffactorau economaidd
- cyswllt cydgysylltiedig

Prif risgiau ar gyfer llwybrau integreiddio systemau a rhannu data (6.3.4):

- terfynau rhannu data
- cyllid tymor byr
- recriwtio a chadw staff
- newidiadau i'r system yn cymryd amser i'w cyflawni

6.6. Effaith hirdymor y bwriedir i'r rhaglen ei chael

Nod y Prosiect Trailblazerar gyfer Anweithgaredd Economaidd ym Mlaenau Gwent yw creu effeithiau hirdymor sy'n gwella canlyniadau i bobl, cyflogwyr a'r system ehangach, yn seiliedig ar egwyddorion Marmot.

Cyfranogwyr

Dros amser, mae'r rhaglen yn ceisio cyfrannu at leihau anghydraddoldebau o ran llesiant a chyfleoedd bywyd, gan gefnogi pobl ag anableddau neu gyflyrau iechyd hirdymor i gael gwaith. Mae hefyd yn anelu at helpu i dorri cylchoedd o anweithgarwch economaidd rhwng y cenedlaethau drwy gryfhau hyder, sgiliau a chyfleoedd i deuluoedd.

Cyflogwyr

I gyflogwyr, yr effaith hirdymor yw symud tuag at farchnad lafur fwy cynhwysol a hygyrch, lle mae sefydliadau'n mabwysiadu arferion recriwtio teg, yn amrywio eu gweithlu ac wedi'u paratoi'n well i gefnogi staff ag anghenion amrywiol.

System gymorth

Ar lefel system, mae'r rhaglen yn bwriadu ymgorffori gwaith amlasiantaethol, cydlynol, wedi'i gefnogi gan systemau data a rennir a llwybrau atgyfeirio

cydgysylltiedig, gan arwain at rwydwaith mwy integredig o gymorth iechyd, llesiant a chyflogaeth ledled Blaenau Gwent.

7. Damcaniaeth newid ar gyfer Sir Ddinbych

7.1. Meini prawf cymhwystra

Rhaid i bobl sy'n gymwys ar gyfer Prosiect Trailblazer Sir Ddinbych fod:

- yn economaidd anweithgar (ddim yn rhan o'r gweithlu a ddim yn gallu gweithio yn y pythefnos nesaf neu ddim wedi bod yn chwilio am waith yn ystod y pedair wythnos diwethaf)
- yn dioddef o gyflwr iechyd hirdymor a/neu anabledd
- rhwng 16 a 64 oed

O fewn y meini prawf hyn, mae rhanddeiliaid yn disgwyl ymgysylltu â, a chefnogi:

- pobl sy'n adfer o gamddefnyddio sylweddau
- pobl â chyflyrau iechyd meddwl hirdymor a chymhleth (megis gorbryder di-frifol, iselder a straen anhwylder wedi trawma)
- pobl ag amhariad ar y synhwyrau
- pobl o'r gymuned Sipsiwn, Roma a Teithwyr

7.2. Mewnbynnau

Mae 7 mewnbwn allweddol ym Mhrosiect Trailblazer Sir Ddinbych


- cynigiwyd cyllid o £3.06 miliwn
- arbenigedd gan Trust Impact
- amser y GIG
- amser yr Adran Gwaith a Phensiynau
- amser darparwyr addysg a hyfforddiant
- amser y trydydd sector
- Gwasanaethau Gweithio Sir Ddinbych – estynedig a gwella

7.3. Mapio gweithgaredd i ganlyniad

Yn yr adran hon, cyflwynir nifer o lwybrau o weithgareddau i ganlyniadau tymor byr, ac yna i ganlyniadau tymor canolig. Mae'r mewnbynnau (adran 7.2) yn galluogi nifer o weithgareddau a gyflwynir yn adrannau 7.3.1 i 7.3.4.

7.3.1. Llwybr a mecanweithiau i gyfranogwyr

Ffigur 7.1 Llwybrau a mecanweithiau i gyfranogwyr Sir Ddinbych




Disgrifiad o Ffigur 7.1: Ffigur sy'n dangos gweithgareddau, allbynnau a chanlyniadau tymor byr mewn cyfres o flychau testun. Defnyddir saethau i ddangos llwybrau. Mae'r cylchoedd wedi'u rhifo yn dangos y mecanweithiau (a ddisgrifir yn y paragraff nesaf). Mae'r model hwn yn dangos gweithgareddau gan gynnwys allgymorth a chyfathrebu, brysbennu, cymorth wedi'i deilwra a chymorth cyflogaeth. Mae ymgysylltu â'r gymuned yn cynyddu cyswllt ac ymgysylltu, gan roi hwb i hyder a chymhelliant. Mae brysbennu a chymorth wedi'i deilwra yn arwain at well parodrwydd ar gyfer swyddi, ac mae cymorth cyflogaeth yn cynyddu sgiliau, gwybodaeth a phrofiad. Bwriad y newidiadau hyn yw gwella iechyd a llesiant, cynyddu cyfranogiad, a chynyddu niferoedd mewn cymorth cyflogaeth a dilyniant i gyflogaeth a gwaith parhaus.

Mae Ffigur 7.1 yn dangos 6 mecanwaith gwahanol

1. **Mae gweithgaredd allgymorth gan sefydliadau cymunedol y trydydd sector a phartneriaid iechyd** yn cynyddu'r tebygolrwydd o gyrraedd ac ymgysylltu â phobl na fyddent yn mynd ati i chwilio am waith neu gymorth arall
2. **Mae un pwynt mynediad** yn fwy cyfleus a hygyrch ac yn annog pobl i ymgysylltu/parhau i ymgysylltu
3. **Cymorth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn gan rywun y maent yn ymddiried ynddo:** Mae'r cyfranogwyr yn gweld bod y cymorth yn ymatebol, ar gyflymder sy'n addas iddyn nhw, ac yn diwallu'r hyn y maen nhw'n ei ystyried yw eu hanghenion pwysicaf. Mae hyn yn cynyddu ymddiriedaeth ac yn lleihau gorbryder ac yn eu hannog i fanteisio ar gymorth parhaus
4. **Mae meithrin hyder a llesiant yn gyntaf yn cefnogi parodrwydd i ymgysylltu**
5. **Mae mynd i'r afael â'r hyn sydd wrth wraidd ymddieithrio** (e.e. ynysu, problemau cysgu) yn galluogi cyfranogwyr i ymgysylltu â gwasanaethau cymorth, gan gynnwys sgiliau a chyflogaeth. Mae sefydlogrwydd emosiynol, cymhelliant a hyder yn cynyddu
6. **Drws agored:** Bydd cynnig cymorth nad yw wedi'i gyfyngu gan amser ac y gall preswylwyr ailymgysylltu ag ef pryd bynnag y byddant yn dewis gwneud hynny yn meithrin ymddiriedaeth ac ymgysylltiad parhaus dros amser. Mae'r polisi drws agored yn sicrhau y gall cymorth ymateb i amgylchiadau sy'n newid dros amser, fel amrywiadau mewn iechyd/darparu gofal, ac mae'n fwy addas i'r rhai ag anghenion cymhleth oherwydd nad oes pwysau'n ymwneud â dyddiad cau.

7.3.2. Llwybrau a mecanweithiau sy'n canolbwyntio ar ofal iechyd

Ffigur 7.2 Llwybrau a mecanweithiau sy'n canolbwyntio ar ofal iechyd Sir Ddinbych




Disgrifiad o Ffigur 7.2. Ffigur sy'n dangos gweithgareddau, allbynnau a chanlyniadau tymor byr mewn cyfres o flychau testun. Defnyddir saethau i ddangos llwybrau. Mae'r cylchoedd wedi'u rhifo yn dangos y mecanweithiau (a ddisgrifir yn y paragraff nesaf). Mae'r model hwn yn dangos gweithgareddau sy'n canolbwyntio ar ofal iechyd gan gynnwys lleoli therapyddion galwedigaethol a chynghorwyr cyflogaeth mewn lleoliadau iechyd, ochr yn ochr â hyfforddiant i weithwyr gofal iechyd nad ydynt yn gweithio'n uniongyrchol mewn cyflogadwyedd i bwysleisio gwaith fel canlyniad iechyd a gofod a rennir ar gyfer gwasanaethau iechyd ataliol. Disgwylir i hyn gynyddu dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth ymhlith mwy o weithwyr iechyd proffesiynol a chynyddu atgyfeiriadau at therapi galwedigaethol neu gymorth cyflogadwyedd gan feddygon teulu. Dros amser, disgwylir i hyn arwain at fwy o integreiddio cynlluniau gweithredu therapi galwedigaethol mewn gofal iechyd a chynyddu ymyrraeth gynnar.

Mae Ffigur 7.2 yn dangos 2 fecanwaith gwahanol

1. **Bydd y berthynas rhwng gweithwyr gofal iechyd proffesiynol (e.e. Therapydd Galwedigaethol a Meddyg Teulu) yn cefnogi Meddygon Teulu** i ymgysylltu â'r agenda gyflogaeth.
2. **Bydd gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn gweld bod yr hyfforddiant yn berthnasol ac o ansawdd uchel** ac felly bod ganddynt gymhelliant i roi'r hyn y maent wedi'i ddysgu ar waith.

7.3.3. Llwybrau a mecanweithiau i gyflogwyr

Ffigur 7.3 Llwybrau a mecanweithiau i gyflogwyr Sir Ddinbych




Disgrifiad o Ffigur 7.3: Ffigur sy'n dangos gweithgareddau, allbynnau a chanlyniadau tymor byr mewn cyfres o flychau testun. Defnyddir saethau i ddangos llwybrau. Mae'r cylchoedd wedi'u rhifo yn dangos y mecanweithiau (a ddisgrifir yn y paragraff nesaf). Mae'r model hwn yn dangos sut mae gweithgareddau sy'n canolbwyntio ar gyflogwyr yn hyrwyddo arferion recriwtio a gweithle mwy cynhwysol. Gall ymgysylltu â chyflogwyr, hyfforddiant, paru swyddi a chymorth yn y gwaith arwain at gynyddu cyfranogiad cyflogwyr mewn cynlluniau a gwella gwybodaeth a dealltwriaeth o arferion cynhwysol a hyder ynghylch cyflogi pobl anabl. Yn y tymor hwy, disgwylir i'r newidiadau hyn gynyddu'r defnydd o arferion recriwtio cynhwysol a hyblyg, creu cyfleoedd cyflogaeth mwy addas a chyfrannu at weithluoedd mwy amrywiol.

Mae Ffigur 7.3 yn dangos 3 mecanwaith gwahanol

1. **Cynlluniau fel Dechrau Gweithio yn helpu i gysylltu unigolion sy'n chwilio am waith a chyflogwyr â swyddi gwag** oherwydd na fyddai'r rhan fwyaf o gyfranogwyr yn llwyddo i fynd drwy'r prosesau recriwtio safonol. Mae hyn yn dangos i gyflogwyr fanteision addasu eu harferion recriwtio yn y tymor hwy.
2. **Mae cymorth yn y gwaith yn arbennig o werthfawr i BBaChau oherwydd bod ganddynt gapasiti cyfyngedig.** Gall yr adnoddau, y cyngor a'r canllawiau ychwanegol a ddarperir drwy gymorth yn y gwaith helpu i feithrin hyder cyflogwyr ynghylch cyflogi pobl anabl a'r rhai â chyflyrau iechyd, a chefnogi cyflogaeth gynaliadwy.
3. **Ar hyn o bryd mae gan gyflogwyr wybodaeth** gyfyngedig ynghylch ble i geisio cymorth hyd yn oed os ydynt yn fodlon cyflogi ystod fwy amrywiol o bobl. Byddant yn teimlo bod Dechrau Gweithio a mentrau tebyg wedi cefnogi datblygiad eu gweithlu. Bydd hyn yn meithrin eu hyder i barhau ag arferion recriwtio cadarnhaol dros amser.

7.3.4. Llwybr a mecanweithiau ar gyfer integreiddio'r system

Ffigur 7.4 Llwybr a mecanweithiau ar gyfer integreiddio'r system Sir Ddinbych



Disgrifiad o Ffigur 7.4: Ffigur sy'n dangos gweithgareddau, allbynnau a chanlyniadau tymor byr mewn cyfres o flychau testun. Defnyddir saethau i ddangos llwybrau. Mae'r cylchoedd wedi'u rhifo yn dangos y mecanweithiau (a ddisgrifir yn y paragraff nesaf). Mae'r model hwn yn dangos sut y disgwylir i weithgareddau sy'n canolbwyntio ar newid systemau wella'r broses o integreiddio gwasanaethau a chynyddu'r defnydd o 'gynnig' ar gyfer anweithgarwch economaidd yn y rhanbarth. Nod gweithgareddau fel ehangu partneriaethau gofal iechyd, meithrin capasiti darparwyr a chronfa ddata newydd Rheoli Perthynas Cwsmeriaid (CRM) a systemau AI ar gyfer gwaith achos yw cynyddu cydweithio, rhannu data, capasiti darparwyr lleol, llywio i gyfranogwyr ac amser ymhlith staff Sir Ddinbych yn Gweithio.

Mae Ffigur 7.4 yn dangos 3 mecanwaith gwahanol

1. **Mae cynyddu cydleoli gwasanaethau yn hwyluso cyfathrebu cryf a phrosesau rhannu data gwell rhwng gwasanaethau ac yn benodol 'cyflwyniadau',** sy'n gwneud i'r cyfranogwr deimlo'n llai pryderus a chael profiad mwy didrafferth, sydd felly'n meithrin ymgysylltiad
2. **Mae'r system Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid newydd yn caniatáu gwell trefniadau olrhain, monitro a gwerthuso** i lywio'r gwaith o ddatblygu gwasanaeth a system. Mae'n galluogi gwelliant parhaus i gefnogi'r nod o integreiddio gwasanaethau'n well
3. **Bydd y ffocws ar ddatblygu'r dull o weithio mewn partneriaeth yn helpu i leihau ymdeimlad o gystadleuaeth a chynyddu parodrwydd darparwyr i weithio mewn partneriaeth**

7.4. Prif ragdybiaethau

Yn yr adran hon cyflwynir y prif ragdybiaethau sy'n gysylltiedig â'r llwybrau.

Prif ragdybiaethau ar gyfer y llwybrau ymgysylltu â chyfranogwyr (7.3.1):

- bydd pobl yn fodlon ac yn gallu ymgysylltu pan fydd gweithgaredd allgymorth yn digwydd
- mae gan sefydliadau'r trydydd sector y wybodaeth a'r cysylltiadau cymunedol sydd eu hangen i gyrraedd pobl newydd
- bydd y cyfraddau ymgysylltu yn ddigonol i gynhyrchu digon o bobl yn y grwpiau targed i'w cefnogi
- bydd cymorth unigol, hyblyg, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, yn diwallu anghenion y cyfranogwyr ac mae cymorth ehangach addas ar gael
- bydd y cyfranogwyr yn parhau i fod â chymhelliant i fanteisio ar gymorth yn ddigon hir er mwyn i newid ddigwydd

Prif ragdybiaethau ar gyfer y llwybrau sy'n canolbwyntio ar ofal iechyd (7.3.2):

- mae digon o therapyddion galwedigaethol â'r sgiliau addas ar gyfer y model cyflawni hwn

- bydd meddygon teulu yn fodlon ymgysylltu â therapyddion galwedigaethol i wneud atgyfeiriadau ac yn gallu gwneud hynny
- mae pobl yn fodlon ymgysylltu â chymorth therapi galwedigaethol ac adsefydlu galwedigaethol

Prif ragdybiaethau ar gyfer llwybrau cyflogwyr (7.3.3):

- mae cyflogwyr eisiau cymryd rhan mewn hyfforddiant ar arferion cynhwysol
- mae gan gyflogwyr y gallu a'r parodrwydd i newid polisïau ac arferion

Prif ragdybiaethau ar gyfer y llwybrau integreiddio systemau a rhannu data (7.3.4):

- bydd y system newydd ar gyfer Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid ar waith yn fuan
- bydd sefydliadau llai yn gweld gwerth cymorth i adeiladu capasiti, byddant eisiau cymryd rhan ac yn gallu gwneud hynny

7.5. Prif risgiau

Yn yr adran hon cyflwynir y prif risgiau sy'n gysylltiedig â'r llwybrau.

Prif risgiau ar gyfer llwybrau cyfranogwyr (7.3.1):

- anhawster dod o hyd i gyfranogwyr cymwys a newid meddyliau
- ffactorau rhwng y cenedlaethau sydd wedi hen fwrw gwreiddiau
- mae partneriaid atgyfeirio yn ei chael hi'n anodd sicrhau bod meini prawf cymhwystra yn cael eu bodloni
- nid yw'r system fudd-daliadau yn gyfrwng ar gyfer newid.

Prif risgiau ar gyfer y llwybrau sy'n canolbwyntio ar iechyd (7.3.2):

- anghenion lluosog a chymhleth
- diffyg adnoddau ymhlith partneriaid iechyd
- y ffaith bod y Bwrdd Iechyd mewn mesurau arbennig yn golygu nad yw'r Prosiect Trailblazer yn flaenoriaeth

Prif risgiau i lwybrau cyflogwr (7.3.3):

- polisi/diwylliant yn araf i newid
- mae'r llu o BBaChau yn golygu gwaith sy'n gofyn am lawer o adnoddau a gwaith araf
- mae amodau economaidd ehangach yn rhwystr i ymgysylltu

Prif risgiau ar gyfer llwybrau integreiddio systemau a rhannu data (7.3.4):

- terfynau rhannu data
- prosesau cydsynio cymhleth ar gyfer rhannu data
- cyllid tymor byr
- recriwtio a chadw staff
- newidiadau i'r system yn cymryd amser i'w gwireddu

7.6. Effaith hirdymor

Mae'r Prosiect Trailblazer yn bwriadu creu effeithiau hirdymor yn gysylltiedig â'r canlynol:

Cymunedau

Dros amser, drwy fynediad at waith cynaliadwy ac ystyrlon, mae'r rhaglen yn ceisio lleihau tlodi ac anghydraddoldebau mewn cymunedau, gan gynnwys cyfleoedd bywyd, a chanlyniadau iechyd a llesiant. Mae'n anelu at gymunedau mwy grymus ac integredig.

Yr economi a'r farchnad lafur

A ddangosir gan ostyngiad mewn diweithdra/dibyniaeth ar fudd-daliadau a chyfraddau anweithgarwch economaidd. Mae hefyd yn anelu at greu marchnad lafur fwy cynhwysol a hygyrch, lle mae pobl anabl, y rhai â chyflyrau iechyd hirdymor a chyfrifoldebau gofalu yn cael eu galluogi i weithio gan gyflogwyr sy'n wybodus ynghylch sut i wneud addasiadau.

Lefel y system

Mae'r rhaglen yn bwriadu gwella'r cydgysylltu rhwng gwasanaethau iechyd, cyflogaeth a sgiliau drwy, er enghraifft, ymgorffori Therapyddion Galwedigaethol mewn practisau meddygon teulu. Agwedd bellach ar hyn fydd gwaddol o systemau data gwell, a fydd yn galluogi mesur effaith a gweithio'n gydgysylltiedig ar draws gwasanaethau yn well.

8. Camau nesaf y gwerthusiad

Mae camau nesaf y gwerthusiad yn cynnwys cam ymchwil cynradd Blwyddyn 2 a gynlluniwyd rhwng Mehefin a Medi 2026. Bydd hyn yn cynnwys:

- cyfweliadau â staff strategol a staff cyflawni, 10 fesul ardal beilot
- arsylwadau/cyfweliadau â chyflogwyr, 3 fesul ardal beilot
- cyfweliadau â phartneriaid prosiect, 7 fesul ardal beilot
- cyfweliadau â chyfranogwyr, 10 fesul ardal beilot
- gweithdai Mapio Sgil-effeithiau, 1 fesul ardal

Bydd yr adroddiad terfynol ar gyfer y gwerthusiad yn cael ei gyhoeddi yng Ngwanwyn 2027.